Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ailysgrifennu'r dyfodol

## Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru

www.cymru.gov.uk

# Ailysgrifennu'r dyfodol

### Cynulleidfa

Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru; awdurdodau lleol Cymru a chonsortia addysg rhanbarthol; undebau; sefydliadau trydydd sector sydd â diddordeb mewn amddifadedd a chyrhaeddiad; ac aelodau'r cyhoedd.

### Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio rhaglen Llywodraeth Cymru a'i phedair thema allweddol sy'n mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawniad addysgol mewn ysgolion.

### Camau cymryd

I'w defnyddio i ddatblygu ymyriadau er mwyn codi cyrhaeddiad dysgwyr sy'n byw mewn tlodi.

### Rhagor o wybodaeth

Dylech anfon unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon i'r cyfeiriad canlynol:
Y Gangen Amddifadedd ac Ymgysylltu
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3630
e-bost: deprivationandengagement@wales.gsi.gov.uk

### Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

### Dogfennau cysylltiedig

*Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* (2013)*; Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (2013)*; Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid – Cynllun gweithredu* (2013).

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN digidol 978 1 4734 1701 4
© Hawlfraint y Goron Mehefin 2014
WG21392

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair y Gweinidog** | **4** |
| **Cyflwyniad** | **5** |
| **1. Pam mae amddifadedd yn bwysig** | **11** |
| **2. Ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned** | **20** |
| **3. Y blynyddoedd cynnar (0 i 7)** | **23** |
| **4. Dysgu ac addysgu o safon uchel** | **27** |
| **5. Disgwyliadau a dyheadau uchel** | **31** |
| **6. Galwad i weithredu** | **35** |

# Rhagair y Gweinidog

Ni ddylai unrhyw blentyn yng Nghymru fod o dan anfantais oherwydd tlodi ac anghydraddoldeb; dyna pam mae mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yw fy mhrif flaenoriaeth.

Mae addysg a sgiliau yn hollbwysig er mwyn gwella cyfleoedd bywyd, ond y gwir amdani yw bod canlyniadau addysgol plant yn fwy tebygol o gael eu llywio gan eu cefndir cartref na chan eu nodweddion personol. Mae plentyn o deulu tlawd yn debygol o ddechrau ysgol gyda llai o eirfa na phlentyn o deulu mwy cefnog, ac mae effaith andwyol tlodi yn parhau i dyfu gydol ei flynyddoedd ysgol. Gall yr effeithiau cronnus olygu bod yr un plentyn yn llai na hanner mor debygol o gael pum cymhwyster TGAU da, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg Iaith Gyntaf a Mathemateg, o gymharu â phlentyn o deulu cefnog; yn llai tebygol o fynd ymlaen i addysg bellach neu uwch; yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant; ac mae'n debygol bod y rhai sydd mewn cyflogaeth yn ennill llai o gyflog.

Mae'r ffactorau sy'n sail i hyn yn niferus ac yn gymhleth, ond mae rhai plant yn llwyddo er gwaethaf y rhwystrau ac mae rhai ysgolion yn gwneud cyfraniad sylweddol at eu helpu i wneud hynny. Rydym yn gweld plant yn llwyddo er gwaethaf y rhwystrau. Pan geir arweinyddiaeth ystyriol a gweithredol; pan fo plant yn cael eu cefnogi i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hwynebu; pan fo teuluoedd yn cymryd rhan yn addysg eu plant; pan fyddwn yn gosod disgwyliadau uchel ac yn annog dyheadau uchel. Rwy'n cydnabod yr her sy'n ein hwynebu, ond mae'r ysgolion hyn yn dangos yr hyn sy'n bosibl ac mae angen i ni ddysgu ganddynt.

Trwy Hwb, rydym yn datblygu rhwydweithiau ar-lein o ymarfer proffesiynol i hwyluso cydweithredu ar bob lefel. Erbyn mis Gorffennaf 2014, bydd gan bob ysgol ei llwyfan dysgu Hwb+ ei hun ac, o fis Medi 2014 ymlaen, byddwn yn dechrau cyflwyno mynediad dilys i'r llwyfan i rieni/gofalwyr a llywodraethwyr.

Bydd y camau hyn yn sbarduno gwell cyrhaeddiad ar gyfer pob dysgwr ond, er mwyn mynd i'r afael a'r anghydraddoldebau yn ein system, mae angen i ni wneud mwy i gyflymu gwelliant ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Fy uchelgais yw gwaredu anghydraddoldebau o safowynt deilliannau dysgwyr fel y gall pob dysgwr, beth bynnag fo ei gefndir, anelu'n uchel a mwynhau'r un cyfle i gyflawni ei ddyheadau.

Dyna pam rwyf wedi mynd ati i lansio rhaglen Her Ysgolion Cymru, gan ddarparu cymorth ac adnoddau ychwanegol i'n hysgolion uwchradd sy'n wynebu'r heriau mwyaf ac ysgolion sy'n eu bwydo. Ond mae anghydraddoldeb sy'n seiliedig ar amddifadedd yn broblem y mae angen mynd i'r afael â hi ym **mhob** ysgol felly bydd yn raid sicrhau bod dysgu'n cael ei rannu rhwng ysgolion a chydag ysgolion ledled Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r broblem gyda'n gilydd ac yn cyflawni fy uchelgais.

**Huw Lewis AC**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

# Cyflwyniad

Ein gweledigaeth yw ein bod yn gosod disgwyliadau uchel ar bob dysgwr, beth bynnag fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol, ac yn sicrhau ei fod yn cael cyfle cyfartal i gyflawni'r disgwyliadau hynny.

Mae effeithiau tlodi ac anfantais yn niferus ac yn gymhleth.

Rydym yn gwybod bod yr effeithiau yno cyn i blant ddechrau ysgol hyd yn oed. Rydym hefyd yn gwybod y gall ysgolion wneud cyfraniad sylweddol at leihau'r effeithiau, yn enwedig pan fyddant yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae *Ailysgrifennu'r dyfodol* yn amlinellu sut y gall ysgolion weithio gyda'u rhieni/gofalwyr i chwalu'r rhwystrau sy'n wynebu plant o gefndiroedd difreintiedig trwy weithredu fel canolbwynt ar gyfer ymyriadau a chymorth.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd allweddol datblygu partneriaethau cryf gydag addysg gyn-orfodol ac ôl-orfodol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau pontio di-dor o'r cartref neu leoliadau gofal plant i addysg Cyfnod Sylfaen; o ysgol i ysgol ac ymlaen i addysg bellach ac uwch a byd gwaith; a chymorth i rieni/gofalwyr a theuluoedd.

Rydym hefyd yn cydnabod y cyfraniad allweddol a chanolog mae ysgolion yn ei wneud at dorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol; dyna pam mae'r ymrwymiadau'n canolbwyntio'n benodol ac yn fwriadol ar y camau brys y mae angen i **ysgolion** eu cymryd a'r camau y mae angen i Lywodraeth Cymru a chonsortia eu cymryd i gefnogi ymdrechion ysgolion.

Mae angen gwella cyrhaeddiad holl ddysgwyr Cymru, ond mae *Ailysgrifennu'r dyfodol* yn canolbwyntio ar wella canlyniadau addysgol i ddysgwyr sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn gynt i sicrhau bod y 'bwlch' cyfredol mewn cyrhaeddiad yn lleihau. Mae'r ddogfen hon yn mynd i'r afael â'r ffaith bod cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yng Nghymru yn **rhy isel o lawer** a bod cynnydd tuag at wella canlyniadau yn **rhy araf o lawer**.

Mae *Ailysgrifennu'r dyfodol* yn adeiladu ar y gwaith a amlinellir yn *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi; Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;* a'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*, ymysg eraill. Mae hefyd yn cefnogi gwaith ac uchelgais ein rhaglen Her Ysgolion Cymru. Mae'n uno gwaith presennol, yn nodi lle mae angen i ni wneud mwy a beth y byddwn yn ei wneud i gyflwyno dull cydlynol cynhwysfawr o gyflawni'r agenda hon. Bydd hefyd yn sicrhau gwelliannau sylweddol yng nghanlyniadau plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.

## Ein hamcanion yw:

- lleihau effaith amddifadedd yn y blynyddoedd cynnar fel bod dysgwyr yn 'barod ar gyfer yr ysgol' ac yn meddu ar sgiliau iaith cynnar datblygedig
- ennyn diddordeb teuluoedd yn addysg a bywyd ysgol eu plant
- gwneud pob ysgol yn 'ysgol gymunedol'
- helpu'r gweithlu ysgol i ddeall a goresgyn yr heriau sy'n wynebu dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig
- sicrhau bod dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn gallu manteisio ar ddysgu ac addysgu o'r safon uchaf
- darparu profiadau dysgu digidol o safon uchel i ddysgwyr i sicrhau bod ganddynt y sgiliau i lwyddo yn y trydydd mileniwm
- annog dyheadau uchel ymhlith dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig
- codi'r disgwyliadau ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a sicrhau eu bod yn cyflawni'r disgwyliadau hynny.

Mae *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi* yn amlinellu amryw o dargedau mewn perthynas â thlodi a chyrhaeddiad addysgol.

- I leihau'r bwlch cyrhaeddiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen 10 y cant erbyn 2017[1].
- I godi lefelau cyrhaeddiad dysgwyr 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar drothwy cynwysedig Lefel 2 mewn Cymraeg/Saesneg Iaith Gyntaf a Mathemateg, i 37 y cant erbyn 2017[2].
- I leihau nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i naw y cant erbyn 2017. Ar ddiwedd 2012, 10.2 y cant oedd y ffigur.
- I leihau cyfran y bobl ifanc 19 i 24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i lefel sy'n gymharol â ffigur y DU erbyn 2017.

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau eisoes wedi gofyn i swyddogion ailystyried y targed ar gyfer y Cyfnod Sylfaen gyda'r nod o'i gryfhau a chynyddu'r her ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Byddwn yn gwneud hyn ar ôl i ganlyniadau 2014 gael eu cyhoeddi.

---

[1] Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn mesur cynnydd mewn tri mesur ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed). Yn 2012, 18 pwynt canran oedd y gwahaniaeth rhwng dysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oeddent yn gymwys.

[2] Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn mesur cynnydd mewn tri mesur ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed). Yn 2012, 18 pwynt canran oedd y gwahaniaeth rhwng dysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oeddent yn gymwys.

Mae'r targed ar gyfer perfformiad plant 15 oed yn her o ystyried y perfformiad presennol (cyflawnodd 25.8 y cant o'r dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim drothwy gynwysedig Lefel 2 yn ystod haf 2013). Er hynny, mae ein huchelgais ar gyfer y gr p hwn o ddysgwyr yn dal i fod yn is na pherfformiad presennol dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn Lloegr.

Mae hyn yn anoddach fyth o ystyried y targedau a nodir gan gonsortia gwella ysgolion rhanbarthol; gyda phob un ohonynt â blaenoriaeth glir i gyflymu'r gwelliannau ym mherfformiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid yw'r targedau lleol ar gyfer gwella yn cyfateb i'r gwelliannau cyffredinol angenrheidiol er mwyn cyflawni ein huchelgais genedlaethol gymedrol; rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o gyflymu ein huchelgais a'n cyflawniad.

## Trosolwg o *Ailysgrifennu'r dyfodol*

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys chwe phrif adran.

Mae Adran 1 yn amlinellu **pam mae amddifadedd yn cyfrif** ac yn disgrifio'r dirwedd yng Nghymru o ran pwy yw ein dysgwyr difreintiedig a ble y maent, eu perfformiad ar hyn o bryd a'r heriau cysylltiedig sy'n eu hwynebu.

Mae Adrannau 2 i 5 yn darparu trosolwg o'r sail dystiolaeth ar gyfer y pedair thema, gan ddisgrifio'r hyn rydym eisoes yn ei wneud a beth arall y mae angen i ni ei wneud.

Mae Adran 6 yn nodi'r ymrwymiadau i weithredu y mae Llywodraeth Cymru'n eu gwneud mewn perthynas â phob thema a'r camau yr hoffem i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia eu cymryd.

## Beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud nesaf?

Ein cam nesaf fydd cyhoeddi llinell amser fanwl ym mis Mehefin 2014 ar gyfer cyflawni ein hymrwymiadau ac amlinellu sut y byddwn yn mesur cynnydd ac effaith.

Byddwn yn cyhoeddi diweddariad blynyddol a fydd yn amlinellu'r cynnydd rydym wedi'i wneud ac unrhyw ymrwymiadau newydd i'n helpu i gyflawni ein huchelgais. Cyhoeddir y diweddariad blynyddol cyntaf ym mis Mehefin 2015.

## Beth ddylai ysgolion ei wneud nesaf?

Yn gyntaf, dylent gymryd amser i ddarllen gweddill y ddogfen hon. Yna, fel ysgol, yn y lle cyntaf dylent ystyried sut i wneud y canlynol cyn ystyried sut i weithredu'r camau a amlinellir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon. Dylai pob ysgol:

- rhoi **lle blaenllaw i fynd i'r afael â thangyflawniad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yng nghynlluniau datblygu'r ysgol**, gan ystyried sut i ddefnyddio adnoddau a datblygu'r gweithlu i ateb yr her
- defnyddio Pecyn Cymorth Sutton Trust-EEF[3] i gefnogi'r cynlluniau. Mae'r cyflwyniad gan Robbie Coleman yn helpu i esbonio sut y gall y pecyn cymorth helpu ysgolion http://dysgu.cymru.gov.uk/resources/deprivation-and-attainment-what-can-really-make-a-difference/?skip=1&lang=cy

[3] Sutton Trust – EEF Teaching and Learning Toolkit, 2013.

- cynllunio'n effeithiol i ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yng nghyd-destun dull ysgol gyfan o fynd i'r afael ag anfantais. Dylai'r grant dargedu dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a dylai ymyriadau a rhaglenni fod yn gynaliadwy a chael effaith yn y tymor byr a hir
- gosod y **disgwyliadau uchaf** ar gyfer **pob** dysgwr a datgan yn glir i ddysgwyr y gallant gyflawni canlyniadau uchel a gwireddu eu huchelgeisiau. Sicrhau bod dysgwyr yn gwybod sut y maent yn datblygu, beth yw eu targedau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gyflawni'r targedau hynny. Defnyddio dulliau tracio effeithiol i fonitro cynnydd yn erbyn targedau a darparu adborth
- **addysgu plant i gynllunio, monitro a gwerthuso eu dysgu eu hunain.** Rydym wedi gweld bod hyn yn arwain at rhwng saith a naw mis o gynnydd ychwanegol. Mae'n hynod effeithiol gyda dysgwyr nad ydynt yn cyflawni llawer a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi deunyddiau ar wefan Dysgu Cymru i helpu ysgolion i ddefnyddio metawybyddiaeth yn yr ystafell ddosbarth http://dysgu.cymru.gov.uk/learningpacks/pisa/introduction-to-metacognition/?lang=cy
- ystyried sut y gellir defnyddio Hwb+ i gefnogi dysgu yn yr ysgol a gartref ar gyfer pob dysgwr.

## Yn ogystal, dylai ysgolion cynradd:

- **ddarparu brecwast am ddim ac annog dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn enwedig i fanteisio ar y cynnig.** Nid yw plant llwglyd yn gallu canolbwyntio cystal ac maent yn fwy tebygol o ymddwyn yn wael. Rydym wedi gweld bod darparu brecwast yn gwella ymddygiad deietegol plant o deuluoedd ac ysgolion â statws economaidd-gymdeithasol is yn fwy nag eraill[4]. Bwriad cynnig brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd yw helpu i wella iechyd plant a'u gallu i ganolbwyntio, gan gynorthwyo i godi safonau dysgu a chyrhaeddiad trwy sicrhau bod plant yn cael cychwyn iach i'r diwrnod ysgol. Dylai pob ysgol gynradd sy'n gofyn amdano dderbyn cyllid i ddarparu brecwast iach am ddim yn yr ysgol bob dydd i bob dysgwr oed ysgol gynradd sydd wedi cofrestru mewn ysgolion cynradd a gynhelir yng Nghymru.

## Dylai ysgolion nas cynhelir ac ysgolion cynradd:

- **gynllunio ar gyfer pontio effeithiol.** Gall pontio gwael amharu ar gynnydd a niweidio hyder.
  - Dylid gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr, teuluoedd, lleoliadau blynyddoedd cynnar, Dechrau'n Deg ac ysgolion eraill i gynllunio'r pontio rhwng lleoliadau/ysgolion i'r Cyfnod Sylfaen, ac ymlaen i Gyfnod Allweddol 2.
  - Dylid creu cysylltiadau da a monitro cynnydd dysgwyr yn barhaus.

---

4 Moore, G. F et al (2014) 'Impacts of the Primary School Free Breakfast Initiative on socio-economic inequalities in breakfast consumption among 9–11-year-old schoolchildren in Wales', Public Health Nutrition.

## Dylai ysgolion uwchradd hefyd:

- **gynllunio ar gyfer pontio effeithiol.** Gall pontio gwael amharu ar gynnydd a niweidio hyder.
  - Dylid gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr, teuluoedd, colegau a chyflogwyr i ystyried y pontio yn ofalus ym mhob rhan o daith y dysgwr.
  - Mae nodweddion allweddol pontio da o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd yn cynnwys:
    - rhannu gwybodaeth am gyflawniad ac anghenion penodol
    - cydgynllunio'r cwricwlwm ar draws Cyfnodau Allweddol 2 a 3
    - ymweliadau â'r ysgol uwchradd ym Mlwyddyn 6 neu gynt
    - ymweliadau gan diwtor Blwyddyn 7 ac athrawon pynciau craidd â Chyfnod Allweddol 2 i gyfarfod plant ac athrawon
    - cyd-safoni safonau mewn grwpiau clwstwr o ysgolion cynradd/uwchradd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

Trwy gadw cysylltiadau â chyn-ddysgwyr, bydd ysgolion yn gallu galw ar fentoriaid a rôl-fodelau i helpu i ysbrydoli myfyrwyr y dyfodol.

## Beth ddylai awdurdodau lleol a'u consortia ei wneud nesaf?

Fel awdurdod lleol, yn gweithio mewn partneriaeth drwy eich consortiwm rhanbarthol, dylech fyfyrio ar eich cynlluniau a'ch targedau, perfformiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a sut y gellir defnyddio'r dulliau a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn fuddiol i gyflymu cynnydd mewn ysgolion penodol a ledled eich rhanbarth.

Mabwysiadu dull **amlasiantaethol** i gyfuno arbenigedd gydag asiantaethau eraill sy'n mynd i'r afael â phryderon iechyd, domestig a lles cymdeithasol dysgwyr a'u teuluoedd. Mewn ardaloedd lle darperir Tîm o Amgylch y Teulu a Teuluoedd yn Gyntaf, byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol a chonsortia sicrhau bod ysgolion yn rhan o'r ddarpariaeth hon. Mewn ardaloedd eraill, dylai awdurdodau lleol a chonsortia gefnogi ysgolion i fabwysiadu dull amlasiantaethol tebyg gyda theuluoedd. Dylai fod disgwyl i ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd clystyrau Cymunedau yn Gyntaf weithio gyda'r tîm Cymunedau yn Gyntaf hefyd. Mae adroddiad Estyn, *Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol*, yn gwneud argymhellion ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol.

http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/296969.4/Gweithio%20gyda%E2%80%99n%20gilydd%20i%20fynd%20i%E2%80%99r%20afael%20ag%20effaith%20tlodi% 0ar%20gyflawniad%20addysgol%20-%20Rhagfyr%202013/?navmap=30,163

**Diffinio tlodi ac amddifadedd**

Mae amddifadedd a thlodi'n cael eu diffinio mewn sawl ffordd wahanol; ar y cyfan, ystyrir bod amddifadedd yn gysyniad ehangach na thlodi. Mae tlodi'n golygu prinder arian. Mae amddifadedd yn cyfeirio at broblemau ehangach a achosir gan brinder adnoddau a chyfleoedd.

Defnyddir cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim fel procsi ar gyfer tlodi mewn ysgolion ac, yn y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, **eFSM**, a'r rhai nad ydynt yn gymwys, **nFSM**. Mesurir amddifadedd ardal gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD), sy'n mesur crynodiadau amddifadedd ar lefel ardal fach. Mae'n defnyddio wyth gwahanol fath o amddifadedd.

Mae prydau ysgol am ddim yn well am nodi unigolion sydd mewn tlodi ac mae WIMD yn well am nodi ardaloedd lle mae yna grynodiad o amddifadedd.

At ddibenion ***Ailysgrifennu'r dyfodol***, rydym yn cyfeirio at ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, er ein bod yn dibynnu'n bennaf ar ddysgwyr eFSM fel ein mesur procsi i nodi'r dysgwyr hynny.

## Diffinio cyrhaeddiad

**Mae *Ailysgrifennu'r dyfodol* yn cyfeirio at gyrhaeddiad gan ddefnyddio amryw o fesurau cyffredin a ddiffinnir isod.**

Mae trothwy cynwysedig Lefel 2 yn cyfeirio at gyflawni cymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg Iaith Gyntaf a Mathemateg.

Mae Dangosydd Pwnc Craidd yn cyfeirio at gyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg Iaith Gyntaf, Mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Mae lefelau disgwyliedig yn cael eu mesur yn erbyn asesiadau athrawon sy'n mesur cynnydd a chyrhaeddiad disgwyliedig ym mhob cyfnod allweddol.

Y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd:

- y Cyfnod Sylfaen yw Canlyniad 5 y Cyfnod Sylfaen
- Cyfnod Allweddol 2 yw Lefel 4 y Cwricwlwm Cenedlaethol
- Cyfnod Allweddol 3 yw Lefel 5 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

# 1. Pam mae amddifadedd yn bwysig

Mae modd gweld effaith tlodi cyn i blant ddechrau ysgol hyd yn oed, yn y gwahaniaeth mewn canlyniadau addysgol ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys trwy bob cyfnod allweddol, yng nghyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i addysg bellach ac uwch ac yn y gyfran nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

## Mae amddifadedd yn bwysig oherwydd:

- erbyn ei fod yn **bump oed**, bydd plentyn o gefndiroedd mwy difreintiedig **dros flwyddyn ar ei hôl hi** yn ei **eirfa** o gymharu â'i gymheiriaid o gefndiroedd llai difreintiedig
- mae dysgwyr eFSM mewn ysgolion cynradd yng Nghymru **bedair gwaith yn fwy tebygol** o fod yn **absennol yn gyson** a **theirgwaith yn fwy tebygol** o fod yn **absennol heb awdurdod** na'u cymheiriaid nFSM
- erbyn **diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd** yng Nghymru, mae **tri o bob 10** plentyn o gefndiroedd difreintiedig yn **methu** â chyflawni'r lefelau disgwyliedig o gymharu â dim ond un o bob 10 o'u cymheiriaid o gefndiroedd mwy cefnog
- mae dysgwyr eFSM mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru **bedair gwaith yn fwy tebygol** o fod yn **absennol yn gyson** a **phedair gwaith yn fwy tebygol** o fod yn **absennol heb awdurdod** na'u cymheiriaid nFSM
- erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd yng Nghymru, **dim ond un o bob pedwar** plentyn eFSM 15 oed sy'n cyflawni'r trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg Iaith Gyntaf a Mathemateg o gymharu â chwech o bob 10 o'u cymheiriaid o gefndiroedd mwy cefnog
- mae dysgwr eFSM yng Nghymru **ddwywaith yn fwy tebygol** o fod ag **anghenion addysgol arbennig (AAA)** ac mae dysgwyr AAA **deirgwaith yn llai tebygol** o gyflawni'r trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg Iaith Gyntaf a Mathemateg
- mae dysgwyr yng Nghymru sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig dros **bum gwaith** yn fwy tebygol o fod yn **NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant)** na dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig ac mae'r rhai sy'n eFSM bron i **deirgwaith** yn fwy tebygol o fod yn NEET
- mae cyfraddau derbyn i addysg uwch (AU) ar gyfer pobl ifanc 18 oed o ardaloedd â'r lefelau isaf o gyfranogiad mewn AU yn y gorffennol ('y mwyaf difreintiedig') tua thraean y lefel ymhlith myfyrwyr o ardaloedd â'r lefelau uchaf o gyfranogiad yn y gorffennol.

Yn y tymor hir, mae lefelau addysg yn effeithio ar enillion; ar gyfartaledd, bydd rhywun â gradd yn ennill 85 y cant yn fwy na rhywun â chymwysterau TGAU yn unig, a bydd y rhai heb unrhyw gymwysterau yn ennill 20 y cant yn llai na rhywun â chymwysterau TGAU. Yn y pen draw, mae cyrhaeddiad addysgol is yn gysylltiedig â disgwyliad oes is ac mae'n fwy tebygol y bydd y plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol[5].

[5] Feinstein L, Budge, D, Vorhaus, J and Duckworth, K: *The social and personal benefits of learning,* Institute of Education, London University (2008).

Nid yw effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol yn beth newydd ac nid yw chwaith yn unigryw i Gymru, ond nid oes rhaid i ni edrych yn bell i weld bod yr effaith yn fwy a'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r broblem yn arafach yng Nghymru o gymharu â mannau eraill.

- Mae dysgwyr eFSM 15 oed yn Lloegr tua 50 y cant yn fwy tebygol o gyflawni'r trothwy cynwysedig Lefel 2 na dysgwyr eFSM 15 oed yng Nghymru.
- Gogledd-ddwyrain Lloegr yw'r rhanbarth tebycaf i Gymru o ran ffactorau economaidd-gymdeithasol; mae ei ddysgwyr eFSM dros deirgwaith yn fwy tebygol o gyflawni'r trothwy cynwysedig Lefel 2 na'u cymheiriaid yng Nghymru.
- Ym mhob rhanbarth yn Lloegr, mae'r gyfradd wella ar gyfer perfformiad dysgwyr eFSM wedi bod yn gyflymach o lawer nag ydyw yng Nghymru.

**Ffigur 1: Cymariaethau o safbwynt cyrhaeddiad**

| | Cymru | | | Lloegr | | | Gogledd-ddwyrain Lloegr | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | eFSM | nFSM | Bwlch | eFSM | nFSM | Bwlch | eFSM | nFSM | Bwlch |
| L2 gan gynnwys C/S a M | | | | | | | | | |
| 2009 | 20.1 | 52.0 | -31.9 | 26.6 | 54.3 | -27.7 | 21.2 | 53.0 | -31.8 |
| 2010 | 20.7 | 54.6 | -34.0 | 31.2 | 58.8 | -27.6 | 26.9 | 57.8 | -30.9 |
| 2011 | 22.0 | 55.7 | -33.8 | 34.6 | 62.0 | -27.4 | 30.4 | 62.5 | -32.1 |
| 2012 | 23.4 | 56.6 | -33.2 | 36.3 | 62.6 | -26.3 | 32.9 | 64.2 | -31.3 |
| 2013 | 25.8 | 58.5 | -32.7 | 37.9 | 64.6 | -26.7 | 34.6 | 65.1 | -30.5 |
| Cynnydd | +5.7 | +6.5 | | +11.3 | +10.3 | | +13.4 | +12.1 | |

Mae'r ffigurau uchod yn amlinellu pam mae hi'n bwysig cyflymu gwelliant yng nghyrhaeddiad dysgwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Beth bynnag yw'r 'bwlch', y ffaith yw bod cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yng Nghymru yn rhy isel o lawer a bod y cynnydd tuag at wella canlyniadau mewn mannau eraill yn gyflymach o lawer nag ydyw yng Nghymru.

**Mae amddifadedd yn bwysig; mae cyrhaeddiad dysgwyr eFSM yng Nghymru yn rhy isel o lawer ac mae'r cynnydd tuag at wella canlyniadau yn rhy araf o lawer.**

## Pwy yw ein dysgwyr difreintiedig, a sut mae dod o hyd iddynt?

Mae 200,000 o blant yng Nghymru yn byw mewn cartrefi sydd mewn tlodi cymharol[6]. O'r rhain, mae dros 90,000 yn byw mewn tlodi difrifol[7], gydag incwm o lai na £12,200 y flwyddyn. Mae tua un o bob pum dysgwr yng Nghymru yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac, yn ôl WIMD, mae bron i chwarter y dysgwyr yn byw yn yr 20 ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

[6] Llai na 60 y cant o incwm canolrifol y DU ar ôl didynnu costau tai, Ystadegau Llywodraeth Cymru, *Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog*, Mehefin 2013.
[7] Achub y Plant, *Cipolwg ar Dlodi Plant: Y darlun lleol yng Nghymru*, 2012.

Mae bron i naw y cant o'r dysgwyr yng Nghymru yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Ffigur 2: Yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac yn preswylio mewn wardiau difreintiedig**




Mae ychydig mwy o ddysgwyr eFSM mewn ysgolion cynradd nag sydd mewn ysgolion uwchradd. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd bod llai o ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig mewn ysgolion uwchradd, ac nid yw chwaith o reidrwydd yn adlewyrchu dylanwad 'gwarthnod'. Yn ôl astudiaeth a gynhaliodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar gyfer Llywodraeth Cymru, y prif resymau dros beidio â manteisio ar y cynnig prydau ysgol am ddim oedd y dewis o fwyd, yr hyn yr oedd ffrindiau'n ei wneud a chiwiau.

Nid yw cymhwysedd dysgwyr unigol i gael prydau ysgol am ddim yn sefydlog, a gall amrywio gydol eu bywyd ysgol. Mae tystiolaeth o wledydd eraill yn awgrymu bod tua phump i saith y cant o ddysgwyr yn newid o fod yn eFSM i fod yn nFSM, neu i'r gwrthwyneb, bob blwyddyn.

Roedd perfformiad grwpiau o ddysgwyr sydd wedi bod yn eFSM am rhwng blwyddyn a phedair blynedd yn is o dipyn na'r grŵp nFSM. Y rhai oedd wedi bod yn eFSM am bum mlynedd neu fwy oedd yn perfformio waethaf o bell ffordd.

**Ffigur 3: Blynyddoedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim a chyflawni trothwy cynwysedig Lefel 2**

| Blynyddoedd eFSM | Cyfran o'r cohort eFSM | % a gyflawnodd drothwy cynwysedig Lefel 2 |
|---|---|---|
| 1 flwyddyn | 3.8 | 35.0 |
| 2 flynedd | 4.6 | 35.8 |
| 3 blynedd | 4.9 | 43.8 |
| 4 blynedd | 5.9 | 34.1 |
| 5 mlynedd neu fwy | 80.8 | 22.9 |

Mae bron i 31,000 o ddysgwyr eFSM mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru (18 y cant).

Mae gan bron i bob ysgol rai dysgwyr eFSM ond nid yw'r dosbarthiad ar draws ysgolion yn gyfartal; mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr eFSM wedi'u crynhoi mewn cyfran fach o ysgolion.

[8] *Adroddiad astudiaethau achos prydau ysgol am ddim*, dogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru rhif 100/2013.

Mae'r ffigurau canlynol yn dangos dosbarthiad dysgwyr eFSM ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae dros hanner yr holl ddysgwyr eFSM yn cael eu haddysg mewn ychydig dros draean o'n hysgolion uwchradd. Mae gan ychydig dros un ym mhob pump o ysgolion uwchradd niferoedd bach o ddysgwyr eFSM.

Mae dros hanner yr holl ddysgwyr eFSM cynradd yn cael eu haddysg mewn chwarter yr holl ysgolion cynradd.

### Ffigwr 4: Dosbarthiad dysgwyr eFSM mewn ysgolion cynradd




### Ffigwr 5: Dosbarthiad dysgwyr eFSM mewn ysgolion uwchradd



Wrth gydnabod y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad dysgwyr eFSM ac nFSM mae'n bwysig parhau i ganolbwyntio ar dangyflawniad dysgwyr eFSM yn fwy cyffredinol. Mae perfformiad dysgwyr eFSM yn amrywio; mae rhai ysgolion â llawer o ddysgwyr eFSM yn perfformio'n well nag eraill ac nid yw rhai ysgolion â niferoedd isel o ddysgwyr eFSM yn cyflawni canlyniadau da ar gyfer y dysgwyr hynny. Mae'r ffigurau isod yn dangos cyfran y dysgwyr eFSM sy'n cyflawni trothwy cynwysedig Lefel 2 yn ôl ysgol uwchradd. Mae'r bar yn cynrychioli perfformiad mewn ysgol unigol (cyfran y dysgwyr eFSM sy'n cyflawni trothwy cynwysedig Lefel 2) ac mae'r dot yn dangos cyfran gyffredinol y dysgwyr eFSM yn yr ysgol. Mae ysgolion wedi'u trefnu yn ôl nifer y dysgwyr eFSM, o'r uchaf i'r isaf. Mae pob ffigur yn dangos ysgolion o fewn grŵp meincnodi prydau ysgol am ddim, gyda'r ysgol â'r nifer fwyaf o ddysgwyr eFSM ar y chwith, a'r ysgol â'r nifer leiaf ar y dde. Ym mhob grŵp, mae yna wahaniaeth mawr yng nghyfran y dysgwyr eFSM sydd wedi cyflawni trothwy cynwysedig Lefel 2. Mewn rhai ysgolion, ni chyflawnodd **unrhyw** ddysgwyr eFSM y meincnod hwn.

### Ffigwr 6: Perfformiad dysgwyr eFSM yn y trothwy L2 cynwysedig 2013 (ysgolion â >=25% FSM)




### Ffigwr 7: Perfformiad dysgwyr eFSM yn y trothwy L2 cynwysedig 2013 (ysgolion â >15% a <=25% FSM)



## Ffigwr 8: Perfformiad dysgwyr eFSM yn y trothwy L2 cynwysedig 2013 (ysgolion â >10% a <=15% FSM)




## Ffigwr 9: Perfformiad disgyblion eFSM yn y trothwy L2 cynwysedig 2013 (ysgolion â <=10% FSM)




**Nid mater i ysgolion â chyfraddau eFSM uchel yn unig yw tanberfformiad dysgwyr eFSM. Rhaid i bob ysgol nodi dysgwyr eFSM a'u helpu i gyflawni.**

Mae system addysg Cymru'n ceisio gwella ei pherfformiad cyffredinol. Roedd perfformiad Cymru yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth yn is o lawer na chyfartaledd yr OECD a pherfformiad gwledydd eraill y DU yn arolwg 2012[9]. Roedd gan Gymru gyfran uwch o ddysgwyr yn y lefelau is ar raddfa PISA a llai o ddysgwyr yn y lefelau uwch, ond roedd eu hyder yn eu gallu yn uwch na'r cyfartaledd. Efallai bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad oes gan ddysgwyr dargedau uchelgeisiol neu nad ydynt yn ymwybodol ohonynt neu nad yw adborth yn dangos iddynt yn ddigonol sut y mae angen iddynt wella a beth y dylent allu ei gyflawni.

Rydym angen i bob dysgwr ym mhob ysgol wella; rydym angen i ddysgwyr eFSM wella'n gyflymach na dysgwyr nFSM.

Mae Ffigur 10 yn dangos cynnydd (trothwy cynwysedig L2) dros dair blynedd ar gyfer pob ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae pob cylch a sgwâr yn cynrychioli ysgol. Mae'r echelin lorweddol yn cynrychioli cynnydd dysgwyr eFSM rhwng 2001 a 2013; mae'r echelin fertigol yn dangos cynnydd dysgwyr nFSM fel newid mewn pwyntiau canrannol dros amser. Mae ysgolion wedi eu nodi fel cylchoedd os wnaeth dysgwyr eFSM fwy o gynnydd na'u cymheiriaid nFSM (neu lai o gynnydd negyddol) ac fel sgwariau os wnaeth dysgwyr nFSM wella mwy na dysgwyr eFSM.

Gwnaeth dysgwyr eFSM a nFSM gynnydd cadarnhaol yn yr ysgolion yn y pedrant de uchaf; gwelodd y rhai a nodwyd fel cylchoedd welliant cyflymach ar gyfer dysgwyr eFSM.

Mae yna lawer o amrywiaeth rhwng ysgolion o ran cynnydd ar gyfer y ddau grŵp; er mwyn cyflawni ein huchelgais, rydym angen i bob ysgol fod yn 'gylchoedd' ac yn y pedrant de uchaf.

**Ffigur 10: Cynnydd dysgwyr yn ôl hawl i brydau ysgol am ddim, L2 cymhwysol, 2010–2013 (pob ysgol)**




[9] Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, *Cyflawniad Disgyblion 15 Oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2012*.

Mae'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol yn gymhleth ac yn cael ei ddylanwadu gan bob math o ffactorau. Yn aml, mae gan ddysgwyr eFSM nodweddion sy'n gorgyffwrdd. Mae cyfran y dysgwyr eFSM yng Nghymru yn amrywio yn ôl grŵp ethnig ac mae 87 y cant yn derbyn rhyw fath o ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA).

**Ffigur 11: Prydau ysgol am ddim, anghenion addysgol arbennig a lleiafrifoedd ethnig**




Mae yna gysylltiad cryf rhwng eFSM a phresenoldeb a rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad addysgol; mae'n debygol y bydd cyfraddau presenoldeb dysgwr eFSM yn is, gan arwain at gyrhaeddiad is.

**Ffigur 12: Canran y dysgwyr sy'n cyflawni Lefel 2 cynhwysol yn ôl cyfradd absenoldeb cyffredinol 2011–2013**




Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod nodweddion teuluol ac amgylchedd cartref plant sy'n dioddef amddifadedd yn cael effaith gref a chyson ar eu cyfleoedd bywyd trwy eu dylanwad ar gyfleoedd dysgu plant.

Mae fframwaith adnabyddus Feinstein et al[10] ar gyfer dadansoddi effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad yn dangos pwysigrwydd ffactorau economaidd-gymdeithasol a demograffig allweddol a'r rhyngweithio rhyngddynt. Mae Ffigur 14 yn dangos y fframwaith, sy'n canolbwyntio ar y cyd-destun teuluol.

**Ffigur 13: Model ar gyfer effeithiau cyfryngu addysg rhieni ar ddatblygiad plant**




## Sut allwn ni ddisgwyl i ysgolion fynd i'r afael â mater mor gymhleth?

Mae rôl yr ysgol yn bwysig am dri rheswm.

- Mae tystiolaeth yn dangos bod tangyflawniad cymharol dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'u cymheiriaid yn cynyddu wrth i blant symud drwy'r system addysg.
- Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos bod ymarfer lefel ysgol effeithiol yn lleihau'r tangyflawniad hwn dros amser os yw'n targedu grwpiau penodol o ddysgwyr.
- Mae'r ysgol mewn sefyllfa dda i gefnogi ac ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau.

Mae'r dystiolaeth yn nodi bod angen mynd i'r afael â'r mater o amryw o onglau; ni fydd un strategaeth neu ymyriad yn gweithio ond, trwy weithio ar draws amryw o themâu, gallwn wneud gwahaniaeth. Mae Adrannau 2 i 5 yn amlinellu'r dystiolaeth sy'n sail i'n dewis o bedair thema ar gyfer gweithredu; yr hyn rydym ni eisoes yn ei wneud a beth arall sydd angen i ni ei wneud.

---

10 Feinstein, L., Duckworth, K. and Sabates, R. (2004). *A model of the inter-generational effects of parental education*.

## 2. Ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned

Mae'r hyn sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol yn cael effaith sylweddol ar ba mor dda mae plant yn perfformio yn yr ysgol.

Mae teulu a chymuned yn darparu'r cyd-destun y mae plant ac ysgolion yn gweithredu ynddo. Gall eu dylanwad ar ganlyniadau fod yn sylweddol. Mae angen i ysgolion ddod o hyd i ffyrdd arloesol o ymgysylltu â theuluoedd a'u cymunedau, a chymryd camau i leihau'r effaith lle nad yw dysgwyr yn cael eu cefnogi'n dda.

Mae cyfraniad rhieni'n cael effaith gadarnhaol a sylweddol ar berfformiad academaidd cyffredinol plant. Mae dwy astudiaeth drylwyr a gynhaliwyd yn ddiweddar yn yr UDA yn awgrymu bod cynyddu cyfraniad rhieni/gofalwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd dysgwyr am ddau i dri mis ar gyfartaledd[11].

Mae yna gysylltiad agos rhwng rhieni'n cymryd rhan mewn gweithgareddau darllen a pherfformiad academaidd dysgwyr. Mae plant y mae eu rhieni/gofalwyr yn darllen iddynt yn rheolaidd yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol gynradd yn perfformio'n well na'r rhai y mae eu rhieni/gofalwyr yn darllen iddynt unwaith neu ddwy y mis yn unig, neu lai[12].

Mae yna hefyd gysylltiad rhwng statws economaidd-gymdeithasol a chyfraniad rhieni. Yn gyffredinol, mae rhieni/gofalwyr mwy addysgedig yn darllen gyda'u plant yn amlach. Mae Estyn yn nodi ei bod hi'n fwy tebygol na fydd rhieni/gofalwyr dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn cyfrannu at addysg eu plant a bod ganddynt farn negyddol am yr ysgol a phrofiad negyddol o'u hamser yn yr ysgol. Mae llawer o ysgolion mewn cymunedau difreintiedig yn teimlo mai ennyn diddordeb rhieni/gofalwyr yw un o'r heriau mwyaf sy'n eu hwynebu. Mae hyn yn anoddach fyth os oes gan y rhieni/gofalwyr sgiliau llythrennedd neu Cymraeg/Saesneg gwael. Yn ôl adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree ar *Tlodi ac Ethnigrwydd yng Nghymru* (Hydref 2013), mae sgiliau Saesneg yn dylanwadu ar allu rhieni/gofalwyr i helpu eu plant i lwyddo yn yr ysgol. Mae rhieni/gofalwyr â sgiliau llythrennedd isel yn fwy tebygol o ystyried mai gweithgaredd ysgol yw darllen, ac nid ydynt yn cydnabod pwysigrwydd darllen fel esiampl gartref[13].

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ynglŷn â sut i gynyddu cyfraniad er mwyn gwella cyrhaeddiad yn llai pendant o lawer. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos teuluoedd difreintiedig[14].

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn cael dylanwad cadarnhaol ar ganlyniadau dysgu. Mae ysgolion sy'n gwneud ymdrech i ennyn diddordeb y gymuned ym mywyd yr ysgol a'r ysgol ym mywyd y gymuned yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau addysgol. Gellir gwneud hyn trwy roi dysgu yn ei gyd-destun; gwella sgiliau sylfaenol oedolion; helpu rhieni/gofalwyr i ddeall yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol a sut i'w helpu; a darparu rôl-fodelau cadarnhaol.

---

[11] Higgins et al (2013). The Sutton Trust–Education Endowment Foundation Teaching and learning Toolkit.
[12] OECD PISA in Focus 2011/10 (Tachwedd).
[13] Fitzgerald, J., Spiegel, D.L a Cunningham, J.W. (1991). *The relationship between parental literacy levels and perceptions of emergent literacy*. Journal of Reading Behaviour, 23, 191-213.
[14] Higgins et al (2013) The Sutton Trust – Education Endowment Foundation Teaching and learning Toolkit.

**Bydd ysgolion sy'n gwneud ymdrech i ennyn diddordeb teuluoedd yn nysgu eu plant a bywyd yr ysgol yn effeithiol ac yn gosod eu hunain yng nghanol eu cymunedau yn gweld canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr, yn enwedig y rhai o gymunedau difreintiedig.**

## Beth rydym ni'n ei wneud nawr?

Mae llawer o waith rhagorol eisoes yn cael ei wneud mewn cymunedau i gefnogi teuluoedd. Lle mae gan ysgolion gysylltiadau da ag asiantaethau a rhaglenni eraill a lle mae gan arweinwyr ysgol weledigaeth glir o ran sut i weithio gyda theuluoedd a chymunedau, rydym yn gweld arferion rhagorol. Er enghraifft, mae'r rhaglen Addysg Bellach Ryng-genedlaethol Gydol Oes (LIFE) yn Abertawe yn defnyddio dyfeisiau iPad i ennyn diddordeb teuluoedd, ac mae'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen i ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

Mae'r **Safonau Arweinyddiaeth Cenedlaethol** yn ei gwneud hi'n ofynnol i benaethiaid gryfhau'r ffocws ar y gymuned. Disgwylir i benaethiaid sicrhau bod yr ysgol yn rhan ganolog o'r gymuned ac yn creu a chynnal partneriaeth effeithiol â rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr er mwyn cefnogi a gwella cyflawniad a datblygiad personol dysgwyr.

Mae'r rhaglen **Cymunedau yn Gyntaf** yn targedu'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau ym maes addysg, yr economi ac iechyd. Mae **Arian Cyfatebol Grant Amddifadedd Disgyblion Cymunedau yn Gyntaf** yn annog ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig i weithio gyda'u cymunedau ar fentrau ar y cyd i godi cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd tlawd. Mae'r grant yn ariannu prosiectau sy'n ceisio hyrwyddo dysgu fel teulu yn y blynyddoedd cynnar, helpu pobl ifanc i wneud yn well yn yr ysgol a helpu teuluoedd i ddangos diddordeb yn addysg eu plant.

Mae amryw o raglenni'n darparu mynediad i gymorth i helpu rhieni/gofalwyr a'r teulu ehangach i ddatblygu eu sgiliau. Mae grant y **Rhaglen Dysgu fel Teulu (FLP)** i awdurdodau lleol yn darparu cymorth trwy raglen strwythuredig o weithdai a chyrsiau, lle gall rhieni/gofalwyr ddatblygu eu dysgu ochr yn ochr â'u plant. Mae grant yr FLP yn targedu'r ardaloedd â'r angen mwyaf mewn cymunedau lleol, gan gynnwys ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd ag ysgolion lle mae cyfran uchel o'r dysgwyr yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae dysgu oedolion yn cael ei gefnogi trwy raglenni **Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL)**, sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol a'u darparu gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach. Mae darpariaeth **Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)** yn helpu unigolion i ddatblygu eu sgiliau Saesneg, gan helpu rhieni/gofalwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf i ymgysylltu a chefnogi dysgu eu plant.

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth ar gyfer model o wasanaethau hygyrch, di-dor a ddarperir yn y gymuned gan bobl fedrus sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod darpariaeth yn cyfateb yn well i anghenion unigolion. Mae cymorth a systemau amlasiantaethol effeithiol yn cael eu hyrwyddo trwy **Teuluoedd yn Gyntaf**, sy'n rhoi pwyslais clir ar atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae'r model **Tîm o Amgylch y Teulu (TAF)**, sy'n annog dull ymyrraeth gynnar, yn rhan annatod o'r rhaglen hon. Fel rhan o'r cymorth ehangach ar gyfer teuluoedd difreintiedig ag anghenion cymhleth, mae'r **Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)** yn wasanaeth statudol sy'n darparu cymorth a dargedir trwy dimau amlasiantaethol o weithwyr proffesiynol medrus, gan ddefnyddio technegau ac ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth gyda phlant a theuluoedd lle mae rhyw lefel o risg neu bryder am les y plentyn.

O fis Medi 2014 ymlaen, bydd yna gyllid ar gyfer prosiectau seiliedig ar ganlyniadau gan sefydliadau Cymorth i Deuluoedd a Gofal Plant a Chwarae trwy'r **Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd (CFOG)**.

## Beth sydd angen i ni ei wneud?

Ni fydd un dull ymgysylltu penodol yn gweithio i bob ysgol; mae angen i bob ysgol wybod a deall y gymuned a'r teuluoedd y mae'n eu gwasanaethu a'r strategaethau a fydd yn gweithio iddynt.

Yn aml, mae ysgolion yn ei chael hi'n anodd nodi eu partneriaid posibl ar lefel leol, ac ychydig iawn o ganllawiau sydd ar gael ar beth yw ymgysylltu rhagorol, ei fanteision neu'r arferion gorau sydd eisoes ar waith ledled Cymru.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir beth yw'r disgwyliadau ar ysgolion yn hyn o beth, nac wedi amlinellu sut y gellir cyflawni'r disgwyliadau hynny na diffinio sut y bydd llwyddiant yn cael ei fesur, ei fonitro a'i ddathlu. Mae angen i ni fynd i'r afael â hyn mewn datganiad polisi a ategir gan ganllawiau ymarferol.

Nid yw rhai rhieni/gofalwyr yn deall eu rôl yn addysg eu plant; mae angen i ni fynd i'r afael â hyn trwy strategaeth gyfathrebu sy'n targedu rhieni/gofalwyr a theuluoedd ac sy'n eu grymuso i wneud cyfraniad gweithredol. Bydd teuluoedd awyddus yn gwneud ymdrech i ymgysylltu â'u hysgolion.

Mae gan sefydliadau'r **trydydd sector** gyfraniad sylweddol i'w wneud yn y maes hwn trwy ddefnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael eu gwerthuso'n briodol, megis rhaglen Teuluoedd ac Ysgolion Gyda'i Gilydd (FAST) Achub y Plant neu raglen '3 A' Achievement for All. Mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o fanteisio ar rym y trydydd sector a helpu ysgolion i wneud dewisiadau gwybodus am y rhaglenni a'r sefydliadau y maent yn ymgysylltu â nhw.

Mae angen i ysgolion deimlo'n hyderus ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio, yr hyblygrwydd sydd ganddynt i fod yn greadigol yn eu dulliau ymgysylltu a'r dewisiadau mewn perthynas ag ariannu gweithgareddau.

Yn olaf, mae angen i ni fanteisio'n llawn ar rym technoleg er mwyn cefnogi'r agenda hon.

# 3. Y blynyddoedd cynnar (0 i 7)

Erbyn y bydd plant yn saith oed, rydym am iddynt fod â'r seiliau priodol ar gyfer iechyd da, bod yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu a meddu ar y sgiliau i'w helpu i gyrraedd eu potensial llawn.

Mae plant tair oed â geirfa dda o deuluoedd incwm isel yn colli tir rhwng tair a phump oed, ac mae cyflawnwyr isel o deuluoedd incwm uchel yn gwella'n gyflymach na phlant eraill sy'n dechrau o linell sylfaen debyg. Mae addysg gynnar effeithiol yn gwella canlyniadau ac mae yna dystiolaeth ryngwladol bod y plant hynny sy'n derbyn addysg gynnar o safon uchel am flwyddyn neu fwy yn perfformio'n well o lawer na'r rhai nad ydynt yn derbyn addysg o'r fath, beth bynnag fo incwm y teulu.

Gan dynnu ar dystiolaeth o'r wlad hon a thramor, y farn gyffredinol yw bod rhaglenni blynyddoedd cynnar da yn cael effeithiau hirdymor a chadarnhaol. Gall gweithredu cynnar arwain at fanteision cost-effeithiol trwy wella canlyniadau iechyd a chyrhaeddiad addysgol, yn ogystal â lleihau'r costau canlyniadol sy'n deillio o gymorth iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder troseddol a lles drud.

Mae Ffigur 14 yn dangos sut y gall rhaglenni ymyrraeth sy'n cefnogi plant difreintiedig yn gynnar yn eu bywydau fod yn fwy cost-effeithiol o lawer na'r rhai sy'n targedu pobl ifanc neu oedolion sy'n tanberfformio. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod rhaglenni cynnar yn cael mwy o amser i ddangos eu manteision cadarnhaol, ond hefyd gan y gall cymorth cynnar atal yr angen am raglenni dal i fyny pan fydd plentyn yn dechrau ysgol.

**Ffigur 14: Adenillion ar fuddsoddiad dros amser**




Ffynhonnell: J Heckman (2008) Return on Investment: Cost vs. Benefits, University of Chicago

Mae'n ymddangos bod y cysylltiad rhwng addysg a gofal o safon uchel mewn plentyndod cynnar a chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant yn arbennig o gryf ar gyfer plant o deuluoedd difreintiedig, gyda'r effeithiau ar y plant hyn yn fwy ac yn para'n hirach.

Mae plant o gefndiroedd difreintiedig o dan anfantais o'r cychwyn cyntaf o gymharu â'u cymheiriaid nad ydynt o gefndiroedd difreintiedig. Mae perfformiad y plant nad ydynt o gefndiroedd difreintiedig yn gwella'n gyflymach na pherfformiad y rhai o gefndiroedd difreintiedig wrth iddynt symud drwy'r ysgol; nid yw'r anfantais yn lleihau wrth iddynt fynd drwy'r ysgol.

Mae'n bwysig cydnabod bod angen i gymorth a buddsoddiad cynnar barhau o un cyfnod dysgu a datblygu i'r cyfnod nesaf fel bod modd adeiladu ar y manteision cynnar a lliniaru effaith gronnus amddifadedd.

**Rhaid i ysgolion gyfrannu at gydgysylltu a chynllunio ymyriadau cynnar o fewn eu cymuned eu hunain, mewn partneriaeth ag ysgolion meithrin, lleoliadau blynyddoedd cynnar a Dechrau'n Deg, a sicrhau pontio effeithiol i mewn ac allan o'r Cyfnod Sylfaen.**

## Beth rydym ni'n ei wneud nawr?

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol yn y gwaith o gefnogi'r blynyddoedd cynnar. Mae *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (Gorffennaf 2013) yn amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Mae'n uno blaenoriaethau, polisïau a rhaglenni sy'n cael effaith neu ddylanwad ar blant a'u teuluoedd yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar:

- iechyd a lles plant
- cefnogi teuluoedd a rhieni/gofalwyr
- gofal plant ac addysg gynnar o safon uchel
- addysg gynradd effeithiol
- codi safonau.

**Dechrau'n Deg** yw rhaglen Blynyddoedd Cynnar flaenllaw Llywodraeth Cymru. Ei nod yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau datblygiad plant trwy ymyrraeth gynnar ac mae'n darparu llwybr tuag at wella cyfleoedd bywyd plant yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r rhaglen amlddisgyblaethol hon yn darparu cyfres 'gyffredinol' o hawliau y gall plant o dan bedair oed a'u teuluoedd mewn ardaloedd daearyddol a dargedir fanteisio arnynt. Mae'r hawliau'n cynnig pob math o gymorth sy'n arwain at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar o safon uchel ar gyfer y plentyn ac sy'n helpu rhieni/gofalwyr i wella eu sgiliau a'u gwydnwch, gan gynnwys mynediad i raglenni rhianta a chymorth ar gyfer datblygiad iaith cynnar. Mae gwaith amlasiantaethol a dulliau Tîm o Amgylch y Teulu yn rhan annatod o Dechrau'n Deg.

Y **Cyfnod Sylfaen** yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer plant rhwng tair a saith oed yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor y dylai darpariaeth blynyddoedd cynnar gynnig sail gadarn ar gyfer dysgu i'r dyfodol trwy gwricwlwm sy'n briodol i ddatblygiad plant. Mae datblygiad cyfannol plant a'u sgiliau ar draws y cwricwlwm, gan adeiladu ar eu profiadau dysgu blaenorol, eu gwybodaeth a'u sgiliau, yn ganolog i'r fframwaith cwricwlwm statudol. Mae Meysydd Dysgu o fewn cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen wrthi'n cael eu hadolygu.

Mae athrawon yn cael eu cefnogi i wneud llythrennedd a rhifedd yn rhan annatod o'r cwricwlwm trwy'r **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)**. Adnodd cynllunio cwricwlwm yw'r FfLlRh a oedd yn canolbwyntio'n wreiddiol ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant pump oed a hŷn ond sydd erbyn hyn yn cael ei ehangu i gefnogi datblygiad blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed. Bydd y ffocws ar 'gyfnod nid oedran' yn parhau i fod yn sail i athroniaeth y Cyfnod Sylfaen, er y dylai pob ysgol geisio sicrhau bod plant yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig erbyn y byddant yn saith oed.

Mae negeseuon cadarnhaol ynglŷn â datblygiad iaith cynnar plant yn cael eu hyrwyddo trwy raglenni fel **Pori Drwy Stori** a **Dechrau Da**. Mae'r rhain yn annog rhieni/gofalwyr i gefnogi llythrennedd a rhifedd eu plant trwy ddarparu llyfrau ac adnoddau dwyieithog i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth a gartref.

## Beth sydd angen i ni ei wneud?

Er bod rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr addysg yn hoff iawn o'r Cyfnod Sylfaen, mae tystiolaeth o werthusiad cynnar yn awgrymu bod angen archwilio sut mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei roi ar waith ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi comisiynu astudiaeth ymchwil annibynnol fawr i ymchwilio i effeithiolrwydd y Cyfnod Sylfaen, a chyflwynir adroddiad yn ddiweddarach yn 2014. Yn y cyfamser, cynhaliwyd archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen.

Mae hi eisoes yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod y trefniadau pontio angenrheidiol yn cael eu gwneud pan fo plentyn Dechrau'n Deg yn symud i ardal Dechrau'n Deg ac oddi yno a phan fo plentyn yn symud o ofal plant Dechrau'n deg i'r Cyfnod Sylfaen. Nid yw arferion gorau bob amser yn cael eu rhannu'n gyson ac effeithiol a'u mabwysiadu'n ehangach. Weithiau, nid yw ysgolion yn cysylltu'n dda â'r lleoliadau blynyddoedd cynnar sy'n eu bwydo ac nid ydynt bob amser yn gweithio gyda'r ystod lawn o ddarparwyr i sefydlu trefniadau rhannu gwybodaeth a phontio da i'r ysgol. Mae angen i ni nodi adnoddau a gwybodaeth am bontio effeithiol o'r cartref, lleoliadau blynyddoedd cynnar a Dechrau'n Deg i'r ysgol. Mae angen i ni helpu lleoliadau ac ysgolion i fabwysiadu'r arferion mwyaf effeithiol trwy ddarparu canllawiau ymarferol a deunyddiau cymorth.

Mae pontio effeithiol yn bwysig i gynnydd a hyder ym mhob pwynt pontio. Yn ogystal, mae angen i ganllawiau gefnogi'r pontio effeithiol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad yn ei 'Rhaglen Lywodraethu' i ddyblu nifer y plant a'u teuluoedd sy'n elwa ar y rhaglen o 18,000 i 36,000 erbyn diwedd tymor presennol y Cynulliad yn 2016. Mae hwn yn estyniad cadarnhaol ac uchelgeisiol, ond nid yw'n golygu na fydd yna ddysgwyr yn byw mewn tlodi na allant fanteisio ar gymorth Dechrau'n Deg.

Mae angen i ni ystyried cost a budd addasu rhaglenni Dechrau'n Deg a sicrhau eu bod ar gael i ddysgwyr ifanc difreintiedig y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg.

Gall dulliau ysgol gyfan a gwaith amlasiantaethol fod yn hynod effeithiol yn y blynyddoedd cynnar ac wrth helpu i liniaru amddifadedd. Dylai ysgolion fod mewn sefyllfa ddelfrydol i nodi'r ymyriadau mwyaf effeithiol a'r partneriaid gorau er mwyn diwallu anghenion dysgwyr; ond byddant yn derbyn mwy o gymorth wrth wneud hyn ar ôl i Ffurflen Asesu a Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar (EYDAF) gael ei lansio. Mae angen i ni ei gwneud hi'n haws i ysgolion a lleoliadau nodi modelau sydd wedi'u gwerthuso'n dda a gwneud cysylltiadau â gwasanaethau lleol eraill.

Yn aml, nodir bod rhannu gwybodaeth, neu rwystrau canfyddedig i rannu, yn rhwystr i waith amlasiantaethol effeithiol. Efallai na fydd ysgolion, nac asiantaethau a gwasanaethau eraill, yn teimlo'n ddigon hyderus i rannu gwybodaeth mewn ffordd briodol a chyfreithlon. Mae angen i ni helpu ysgolion a'u partneriaid i oresgyn y rhwystr hwn trwy hyrwyddo'r defnydd o brotocolau cymeradwy Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Mae rhai ymarferwyr wedi nodi eu bod yn teimlo nad oes yna gymorth digonol i ddysgwyr mewn meithrinfeydd annibynnol, neu unedau/dosbarthiadau meithrin sydd ynghlwm wrth ysgolion cynradd, i'w helpu i oresgyn effaith tlodi. Mae yna fwlch canfyddedig rhwng cymorth trwy Dechrau'n Deg a thrwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae angen i ni nodi a oes yna fylchau mewn darpariaeth a chymorth ac, os oes, ystyried ffyrdd gwell o gefnogi'r dysgwyr hyn.

Mae rhai ysgolion wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran cefnogi dysgwyr a'u teuluoedd trwy ymestyn y diwrnod ysgol. Gall clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol ddarparu gofal plant o safon, cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol ac ymestyn y dysgu mewn ffordd anffurfiol. Gall gweithgareddau dydd estynedig fod yn ffordd arall o ennyn diddordeb teuluoedd hefyd, efallai trwy ymestyn y ddarpariaeth frecwast i rieni/gofalwyr neu gynnig gweithgareddau allgyrsiol i ystod ehangach o gyfranogwyr.

Mae rhai ysgolion cynradd yn ennyn diddordeb rhieni/gofalwyr yn nysgu eu plant yn uniongyrchol, gan wahodd rhieni/gofalwyr i'r ystafell ddosbarth ar adegau penodol a hyd yn oed eu cynnwys yn rheolaidd mewn rhai gwersi, yn enwedig i helpu i ddatblygu iaith. Mae hyn wedi bod yn effeithiol iawn i blant sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Efallai na fydd gan rai ysgolion ddigon o hyder i fynd i'r afael â phroblemau ymarferol ymestyn y diwrnod ysgol neu gynnwys rhieni/gofalwyr fel hyn, ac efallai y byddant angen canllawiau ar y mathau o weithgarwch a fydd yn cael yr effaith fwyaf neu syniadau ar sut i ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch o'r fath.

# 4. Dysgu ac addysgu o safon uchel

Ansawdd addysgu yw'r ffactor allweddol mewn perthynas â chefnogi canlyniadau dysgwyr. Mae astudiaethau o effeithiolrwydd athrawon yn awgrymu y bydd dysgwyr sy'n cael eu rhoi gydag athrawon sy'n perfformio'n dda yn datblygu deirgwaith yn gyflymach na'r rhai gydag athrawon sy'n perfformio'n wael[15]. Mae ein dysgwyr mwyaf heriol angen mynediad i addysgu o'r safon uchaf.

Yn ôl astudiaeth o arferion mewn ysgolion cynradd[16], mae dylanwad ansawdd addysgu cyffredinol ar ddarllen a mathemateg yn gryfach na dylanwad net rhai ffactorau cefndirol, gan gynnwys bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae astudiaethau eraill wedi dadlau mai ffocws cryf ar ddysgu ac addysgu yw un o nodweddion allweddol ysgolion llwyddiannus mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig[17].

Ar y cyfan, nid oes tystiolaeth i awgrymu bod addysgeg effeithiol ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn wahanol o ran ansawdd i addysgeg effeithiol ar gyfer dysgwyr eraill. Yr hyn mae'r dystiolaeth yn ei ddangos yw bod dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn llai tebygol o dderbyn addysgu o safon uchel, er mai mwy o addysgu o'r fath sydd ei angen arnynt er mwyn gwella eu perfformiad. Mae ymchwil ryngwladol yn nodi mai dim ond addysgu yn yr ystafell ddosbarth sy'n cael mwy o ddylanwad ar ddysgu dysgwyr nag arweinyddiaeth ysgol[18]. Os oes yna arweinyddiaeth weithredol ac effeithiol, gall ysgolion liniaru effaith amddifadedd.

Un maes sy'n destun llawer o drafod yw'r defnydd o gynorthwywyr addysgu a staff cymorth. O'u defnyddio'n effeithiol, mae staff cymorth yn adnodd gwerthfawr; fel arall, efallai na fydd unrhyw wahaniaeth i ganlyniadau ar gyfer dysgwyr agored i niwed ac mae rhywfaint o dystiolaeth yn dangos y gallant gael effaith andwyol hyd yn oed[19]. Yn ôl gwerthusiad o'r Premiwm Disgyblion yn Lloegr, mae datblygu sgiliau cynorthwywyr addysgu, yn enwedig ym maes Asesu ar gyfer Dysgu, yn gwella canlyniadau[20].

**Mae angen i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig elwa ar ddysgu ac addysgu o'r safon uchaf. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinwyr gweithgar ac effeithiol ac maent yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol.**

## Beth rydym ni'n ei wneud nawr?

Mae rôl allweddol dysgu ac addysgu o safon yn cael ei hadlewyrchu yn y flaenoriaeth uchel sy'n cael ei rhoi i bolisïau sy'n cefnogi datblygiad y gweithlu cyfan. Un o nodau allweddol cynllun ***Gwella ysgolion*** Llywodraeth Cymru yw darparu gweithlu medrus, cefnogi dysgu ac addysgu o safon uchel mewn ysgolion a darparu arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel.

[15] How the world's best-performing school systems come out on top, McKinsey et al 2007.
[16] Sammons, P., Sylva, K., Melhuish, E., Siraj-Blatchford, I., Taggart, B., Barreau, S. a Grabbe, Y. (2008). Effective Pre school and Primary Education 3-11 Project (EPPE 3-11) *The Influence of School and Teaching Quality on Children's Progress in Primary School*. DCSF Research Report RR028.
[17] Muijs, D, Harris,A, Chapman, C, Stoll, L a Russ, J (2004) *'Improving schools in socioeconomically disadvantaged areas – a review of research evidence', School Effectiveness and School Improvement,* Cyfrol 15, Rhif 2 tud. 149-175.
[18] Leithwood, Day, Sammons, Harris, Hopkins (2006) Seven Strong Claims about Successful School Leadership.
[19] The Sutton Trust - EEF Teaching and Learning Toolkit.
[20] The Pupil Premium, Making it work in your school, Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Mae'r **model integredig** ar gyfer ymarfer, adolygu a datblygu yn cysylltu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) athrawon â safonau proffesiynol a rheoli perfformiad. Mae **safonau proffesiynol** diwygiedig yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymarferwyr sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig cymdeithasol. Rydym yn datblygu model cenedlaethol o ddysgu proffesiynol a fydd yn amlygu nodweddion allweddol datblygiad proffesiynol effeithiol.

Mae'n ofynnol i ysgolion hunanwerthuso, gan dynnu ar eu Set Ddata Graidd Cymru Gyfan a data arall, gan gynnwys ystyried cyrhaeddiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dylai'r hunanwerthusiad hwn fod yn sail i'r **cynllun datblygu ysgol (CDY)**; yna, dylai'r meysydd i'w datblygu a'r targedau yn y CDY lywio amcanion rheoli perfformiad a chynlluniau DPP y pennaeth am y flwyddyn ar gyfer y staff i gyd. Mae deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i wella cysondeb ac ansawdd cynlluniau datblygu ysgol.

Rydym yn cynyddu **capasiti arwain** ledled Cymru trwy annog a helpu ymarferwyr i ddatblygu eu potensial arwain eu hunain a photensial arwain pobl eraill gydol eu gyrfaoedd. Bydd y **Llwybr Datblygu Arweinyddiaeth** rydym yn ei ddatblygu yn galluogi ymarferwyr i nodi pa gyfleoedd datblygu sy'n gweddu i'w hamgylchiadau a'u dyheadau ac yn helpu i greu doniau arwain newydd a fydd yn datblygu i fod yn arweinwyr y dyfodol.

Mae **Dysgu Cymru** yn darparu sail adnoddau ar gyfer ysgolion yn seiliedig ar feysydd gwella, adroddiadau datblygiad proffesiynol, ymchwil ac astudiaethau achos.

Trwy **Hwb**, rydym yn datblygu rhwydweithiau ar-lein o ymarfer proffesiynol i hwyluso cydweithredu ar bob lefel. Erbyn mis Gorffennaf 2014, bydd gan bob ysgol ei llwyfan dysgu Hwb+ ei hun ac, o fis Medi 2014 ymlaen, byddwn yn dechrau cyflwyno mynediad dilys i'r llwyfan i rieni/gofalwyr a llywodraethwyr.

Mae'r **model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol** yn egluro a chryfhau rôl y consortia gwella ysgolion rhanbarthol. Mae gwaith ysgol i ysgol a chymheiriaid i gymheiriaid yn rhan annatod o ddulliau rhanbarthol i godi safonau. Fe'i darperir trwy gymunedau dysgu proffesiynol (CDPau), trwy fodel cenedlaethol ar gyfer hyfforddi a mentora a thrwy'r prosiect ymarferwyr arweiniol a datblygol lle mae ysgolion sy'n perfformio'n dda (ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol) yn cael eu paru ag ysgolion sydd newydd ddechrau gwella (ysgolion sy'n ymarferwyr datblygol).

Mae gan **gynlluniau busnes consortia** rhanbarthol flaenoriaethau a thargedau clir ar gyfer gwella canlyniadau i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, ac maent yn amlinellu'r camau y bydd consortia'n eu cymryd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac ysgolion i hwyluso'r gwelliannau angenrheidiol.

Mae **Teach First Cymru** yn lleoli'r athrawon dan hyfforddiant mwyaf disglair mewn ysgolion uwchradd sy'n gweithio o dan yr amgylchiadau anoddaf fel y gallant gefnogi pobl ifanc sy'n wynebu anfantais addysgol. Mae yna ffocws cryf ar ymgysylltu â'r gymuned a chysylltiadau ysgol ehangach. Yn ogystal, defnyddir **athrawon llythrennedd a rhifedd o safon uchel** i gefnogi, mentora a hyfforddi'r ysgolion, yr athrawon a'r staff cymorth hynny a fyddai'n elwa fwyaf ar y cymorth hwnnw.

Rydym wedi cyflwyno gradd **Meistr mewn Ymarfer Addysgol (MYA)** sy'n agored i bob athro newydd gymhwyso. Mae'n cynnwys modiwl ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad; mae'r adnoddau hefyd ar gael i ymarferwyr mewn ysgolion trwy wefan Dysgu Cymru.

Mae'r **Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG)** yn hyfforddi athrawon i ddarparu ein Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh). Wrth ddatblygu cymorth i ysgolion, mae'r RhGG wedi categoreiddio amryw o adnoddau a datblygu eraill a fydd yn cael effaith uniongyrchol o ran gwella canlyniadau i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.

Mae datblygiad **staff cymorth ysgolion** mewn swyddi newydd ac uwch wedi bod yn hollbwysig o ran sicrhau newid diwylliannol sylweddol yn y ffordd mae'r gweithlu'n cael ei ddefnyddio, ac mae wedi bod yn ffactor allweddol yn yr ymgais i godi safonau trwy ddarparu addysgu o safon uchel. Mae'r **Cynllun Gweithredu Staff Cymorth** yn amlinellu ystod o gamau gweithredu i gryfhau darpariaeth ar gyfer staff cymorth ac i gefnogi'r datblygiad a'r defnydd effeithiol o'r sector hwn yn y gweithlu ysgol.

**Her Ysgolion Cymru** yw rhaglen wella gwerth miliynau o bunnoedd Llywodraeth Cymru i wella perfformiad yn ysgolion Cymru. Mae'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar Llwybrau Llwyddiant sef ysgolion sy'n gweithredu o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd yn cael effaith ar draws yr holl system addysg.

## Beth sydd angen i ni ei wneud?

Mae datblygu'r gweithlu wedi rhoi pwyslais mawr ar lythrennedd a rhifedd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae yna lai o adnoddau a deunyddiau ar gael i gefnogi datblygiad sgiliau i adnabod, deall a diwallu anghenion dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Yn aml, nid oes gan ysgolion nac arweinwyr ysgolion amser i gynnal ymchwil drylwyr i'r hyn sydd fwyaf effeithiol a phwy all ddarparu hyfforddiant o safon uchel. Mae angen i ni eu helpu nhw, awdurdodau lleol a chonsortia i nodi'r arferion a'r datblygiad mwyaf effeithiol.

Rhaid i weithgareddau datblygiad proffesiynol ganolbwyntio ar **gynyddu capasiti'r gweithlu cynaliadwy**, gan gynnwys capasiti arwain, fel bod buddsoddiad yn cael effaith hirdymor. Mae hyn yn golygu helpu ysgolion i ddatblygu sgiliau grŵp ehangach o ymarferwyr yn hytrach na buddsoddi mewn un neu ddau aelod o staff sy'n mynd â'u harbenigedd gyda nhw pan fyddant yn symud i ysgol arall. Mae dulliau ysgol gyfan hefyd yn effeithiol ar gyfer mynd i'r afael ag effaith amddifadedd.

Nid yw pob ysgol neu gonsortiwm yn hwyluso sesiynau hyfforddi a chynllunio'r gweithlu cyfan yn rheolaidd ar gyfer athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff cymorth er mwyn cefnogi ymyriadau mwy cydgysylltiedig ac effeithiol. Mae angen i ni helpu trwy sicrhau bod gwasanaethau gwella ysgolion yn nodi a threfnu neu ddarparu hyfforddiant a darparwyr gweithlu cyfan addas, gan nodi rhwystrau posibl a ffyrdd o'u goresgyn. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd mwy effeithiol o ddiwrnodau HMS statudol[21].

[21] Estyn, HMS Statudol mewn Ysgolion, Mehefin 2013
http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/282445.8/HMS%20Statudol%20mewn%20ysgolion%20-%20Mehefin%202013/?navmap=30,163

Mae angen i rai ysgolion ddefnyddio staff cymorth yn fwy effeithiol er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. Efallai y bydd rhai athrawon ystafell ddosbarth angen cymorth i reoli a defnyddio staff cymorth yn effeithiol. Mae angen i ni hyrwyddo defnydd effeithiol trwy ddarparu canllawiau ymarferol ar arferion da a 'chynllunio tîm' effeithiol.

Mae gwybyddiaeth a metawybyddiaeth yn strategaethau effeithiol i bob dysgwr, yn enwedig dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Mae deunyddiau presennol Llywodraeth Cymru ar wefan Dysgu Cymru i helpu ysgolion i ddefnyddio metawybyddiaeth yn yr ystafell ddosbarth yn cynnig cyflwyniad i fetawybyddiaeth, ond efallai na fyddant yn berthnasol i bob ysgol. Mae angen i ni ymestyn y deunyddiau sydd ar gael a hyrwyddo'r defnydd ohonynt gyda'r nod o roi'r strategaethau hyn ar waith ym mhob ystafell ddosbarth.

Ar hyn o bryd, mae cymunedau dysgu proffesiynol (CDPau) yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd na mynd i'r afael ag effaith amddifadedd. Mae angen i ni gynyddu nifer y CDPau o safon uchel sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r agenda amddifadedd.

Mae Her Ysgolion Cymru yn cyflwyno dyheadau uchel i ni gyd a bydd yn canolbwyntio'n ddygn ar wella ansawdd dysgu ac addysgu, gan wneud defnydd gwell o'r arbenigedd gorau sy'n bodoli yn y system.

# 5. Disgwyliadau a dyheadau uchel

Mae agweddau ac ymddygiadau'n rhan bwysig o'r cysylltiad rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol plant. Aeth astudiaeth ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree (JRF)[22] ati i ddadansoddi setiau data mawr er mwyn creu sail dystiolaeth gref ar gyfer pwysigrwydd dyheadau mewn cyfnodau allweddol ym mywydau plant. Roedd cysylltiad cryf rhwng dyheadau a disgwyliadau plant a rhieni/gofalwyr â chanlyniadau yn y meysydd hyn. Er enghraifft, hyd yn oed ar ôl ystyried ffactorau cefndir teuluol a chyrhaeddiad blaenorol, mae pobl ifanc yn fwy tebygol o berfformio'n dda yn eu harholiadau TGAU os yw eu rhieni'n credu ei bod hi'n debygol y bydd yr unigolyn ifanc yn mynd ymlaen i addysg uwch ac os oes gan y bobl ifanc eu hunain fwy o hyder yn eu gallu yn yr ysgol ac yn teimlo bod ysgol yn werth chweil.

Mae'r teuluoedd hynny â chyfalaf diwylliannol uchel: rhieni/gofalwyr â graddau prifysgol a llawer o lyfrau yn y cartref, er enghraifft, yn fwy tebygol o ddisgwyl i'w plant fynd i'r brifysgol neu ddilyn gyrfa broffesiynol. Aeth yr astudiaeth hon ac ymchwil arall ar gyfer y JRF[23] ati i herio'r rhagdybiaeth bod gan blant tlawd a'u rhieni/gofalwyr ddyheadau isel. Yn ôl astudiaeth, roedd rhan fwyaf o blant carfan y mileniwm, a anwyd yn 2000 neu 2001, yn uchelgeisiol iawn pan oeddent yn saith oed. Roedd ychydig dros 80 y cant ohonynt yn gobeithio bod yn rheolwyr, gweithwyr proffesiynol neu weithwyr proffesiynol cyswllt. Fodd bynnag, roedd yna wahaniaethau bach rhwng gwledydd y DU. Plant yng Ngogledd Iwerddon oedd y lleiaf tebygol o ddweud yr hoffent fod yn swyddogion heddlu neu actorion. Plant yn Lloegr oedd y lleiaf tebygol o eisiau bod yn weithwyr trin gwallt a'r mwyaf tebygol o ddweud yr hoffent fod yn feddygon. Plant saith oed yn yr Alban a Gogledd Iwerddon oedd â'r diddordeb mwyaf mewn bod yn filfeddygon a phlant yng Nghymru oedd y lleiaf awyddus i fod yn athrawon (Sefydliad Addysg, 13 Medi 2012).

Yn hytrach na chodi dyheadau er mwyn gwella cyrhaeddiad, mae astudiaethau wedi dod i'r casgliad bod angen cynnig mwy o gymorth i blant a theuluoedd ddysgu am gyfleoedd addysgol a gyrfa ac ehangu eu gorwelion fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u dyfodol a gwireddu eu dyheadau.

Gwyddom fod gan Gymru gyfrannau isel o ddysgwyr sy'n perfformio'n rhagorol (Lefelau 5 a 6 ar raddfa PISA) mewn mathemateg, darllen a gwyddoniaeth. Er enghraifft, 5.3 y cant o ddysgwyr 15 oed gyrhaeddodd y lefelau uchaf ar raddfa fathemateg PISA yn 2012, sy'n llai na hanner cyfartaledd y DU (11.9 y cant) a chyfartaledd yr OECD sef 12.6 y cant.

Mae'r adroddiad OECD diweddar yn nodi y dylai ysgolion gynnig amgylchedd dysgu mwy heriol a chefnogol i'r dysgwyr sy'n perfformio orau a fydd yn eu hysgogi i ragori'n addysgol. Mae mwy a mwy o dystiolaeth ymchwil yn dangos bod modd gwneud hyn drwy addysgu gwahaniaethol (Dumont et al., 2010; McQuarrie et al., 2008; Rock et al., 2008; Lawrence-Brown, 2004).

---

22 Goodman, A. a Gregg, P. (2010) *Poorer children's educational attainment: How important are attitudes and behaviour?* Efrog: JRF.

23 Kintrea, K., St Clair, R. a Houston, M., (2011) *The influence of parents, places and poverty on educational attitudes and aspirations*. Efrog: JRF

Mae astudiaethau[24] yn dangos cysylltiad cryf rhwng disgwyliadau athrawon am ddysgwyr a sut maent yn eu trin mewn ffyrdd sy'n creu proffwydoliaethau hunangyflawnol. Roedd dysgwyr a oedd yn cael eu trin fel cyflawnwyr uchel yn perfformio fel cyflawnwyr uchel; roedd y rhai a oedd yn cael eu trin fel cyflawnwyr isel yn perfformio fel cyflawnwyr isel.

Mae disgwyliadau'n dylanwadu ar y nodau a bennir gan athrawon a dysgwyr a'r strategaethau a ddefnyddir i gyflawni'r nodau hyn. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod sut mae athrawon yn ymddwyn yn adlewyrchu'r disgwyliadau hyn ac yn gysylltiedig â chyflawniad academaidd.

**Os yw dysgwyr yn cael eu cefnogi i ystyried dewisiadau ehangach a gwneud dewisiadau gwybodus, ac os oes ganddyn nhw, eu rhieni/gofalwyr a'u hathrawon ddisgwyliadau uchel, maent yn fwy tebygol o lwyddo.**

## Beth rydym ni'n ei wneud nawr?

Mae ein Safonau Arwain yn amlinellu disgwyliadau ar gyfer penaethiaid, gan gynnwys gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer yr ysgol gyfan yn seiliedig ar ddatblygu a chynnal disgwyliadau uchel.

Mae'r Athro Graham Donaldson wedi'i benodi i arwain adolygiad cynhwysfawr, eang ac annibynnol o'r **cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu** yng Nghymru. Nod yr adolygiad hwn, y **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)** a'r gwaith o ailgynllunio cymwysterau TGAU yw gosod meincnodau uchel a chodi disgwyliadau ar gyfer canlyniadau dysgwyr.

Mae pob math o ganllawiau ac adnoddau ar wefan Dysgu Cymru ac mae astudiaethau achos yn cael eu datblygu i helpu ysgolion i roi strategaethau effeithiol ar waith er mwyn codi cyrhaeddiad a defnyddio **arferion effeithiol wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais**.

Trwy **Hwb+**, rydym wedi cyflwyno systemau cwmwl sy'n ei gwneud hi'n haws cael gafael ar gymorth addysgu a deunyddiau dysgu o safon uchel. Mae'n darparu dull o gyflwyno adborth a rhyngweithio rhwng athrawon a dysgwyr, yn darparu mynediad cyflym i ddysgwyr i'w gofod dysgu eu hunain ac yn caniatáu i ddysgwyr tracio eu cynnydd eu hunain yn erbyn targedau.

Mae dysgwyr o bob oed angen targedau llawn her ac mae angen iddynt wybod beth yw'r targedau hynny a deall beth sydd angen iddynt ei wneud i'w cyflawni. Anogir ysgolion yn gryf i ddefnyddio **Pecyn Cymorth Sutton Trust-EEF** wrth nodi strategaethau i'w rhoi ar waith gyda chymorth eu Grantiau Amddifadedd Disgyblion; mae'r pecyn cymorth yn hyrwyddo'r defnydd effeithiol o adborth o safon uchel fel strategaeth cost isel sy'n cael effaith sylweddol er mwyn codi cyrhaeddiad dysgwyr, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Mae hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o fentora gan gymheiriaid ac asesiad effeithiol i ddysgwyr.

Os bydd dysgwyr ar ei hôl hi, cynigir ystod o raglenni **dal i fyny** sy'n addas i ddysgwyr o bob oed. Mae'r **Prosiect Cyfnod Allweddol 4 TGAU Mathemateg a Saesneg** hefyd yn helpu ysgolion uwchradd i gynyddu'r defnydd o ddata canlyniadau, gan gryfhau rôl arweinwyr ysgolion o ran sbarduno gwelliannau.

---

[24] Oakes, J. (1985), *Keeping track: How schools structure inequality*. New Haven, CT: Gwasg Prifysgol Yale.

Mae adroddiadau diweddar a gyflwynwyd ar ran Llywodraeth Cymru gan yr Athro Dai Smith a'r Farwnes Kay Andrews OBE wedi amlinellu argymhellion ar gyfer rôl y celfyddydau mewn addysg a grym y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth o ran hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru.

Gan werthfawrogi pa mor fregus yw dysgwyr wrth iddynt nesáu at ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae gennym strategaethau sy'n canolbwyntio'n arbennig ar gymorth, ymgysylltu a datblygiad. Mae **anogwyr dysgu** yn canolbwyntio ar gefnogi ac ysgogi pobl ifanc i'w helpu i oresgyn rhwystrau i barhau i ddysgu, ac i ennill cymwysterau. Nod y **Warant Ieuenctid** newydd, **a gyflwynwyd fel rhan o'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid***, yw sicrhau bod pobl ifanc yn gallu pontio'n llwyddiannus i ddarpariaeth addysg neu hyfforddiant am y tro cyntaf. Trwy dargedu gwasanaethau cymorth ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio, bydd pobl ifanc yn derbyn cymorth i wneud cais a dechrau ar ddarpariaeth briodol sy'n diwallu eu hanghenion.

Nod y **Lwfans Cynhaliaeth Addysg** yw annog dysgwyr o deuluoedd incwm isel i barhau â'u haddysg ôl-16 ac, ar gyfer dysgwyr 19 oed neu hŷn, mae **Grant Dysgu Llywodraeth Cymru** ar gyfer addysg bellach (AB) yn darparu cymorth i'r rhai o deuluoedd incwm isel sy'n parhau â'u hastudiaethau.

Ymyrraeth strategol hirdymor ar gyfer pobl ifanc o bob oed ac a ariennir gan CCAUC yw **Ymestyn yn Ehangach**, a'i nod yw mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol ac ehangu mynediad i addysg uwch (AU). Mae pob sefydliad AU ac AB yng Nghymru yn aelod o un o'r tair partneriaeth Ymestyn yn Ehangach amlasiantaethol. Mae'r Partneriaethau'n annog grwpiau a chymunedau a dargedir yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, i gymryd rhan mewn addysg uwch trwy wella sgiliau a chodi dyheadau addysgol, gan greu cyfleoedd astudio newydd a llwybrau dysgu i addysg uwch.

Yn y cyfamser, mae ein **Llysgennad Oxbridge** wedi amlinellu argymhellion i sicrhau bod y rhai â'r gallu yn cydnabod y dylent geisio cael lle yn y prifysgolion gorau, ac mae dysgwyr yng Nghymru'n gallu manteisio ar ystod o raglenni **ysgol haf** ledled y DU ac yn rhyngwladol sydd â'r nod o ddiwallu pob math o anghenion. Mae awdurdodau lleol hefyd yn cynnig amrywiaeth o raglenni gweithgareddau haf ac mae rhai'n cynnig rhaglenni dysgu haf.

## Beth sydd angen i ni ei wneud?

Nid yw pob ysgol yn gwneud y defnydd gorau o Becyn Cymorth Sutton Trust-EEF a, hyd yma, nid yw llawer ohonynt wedi sefydlu dulliau ysgol gyfan o weithredu strategaethau cost isel sy'n cael effaith sylweddol, megis adborth effeithiol, asesu ar gyfer dysgu a mentora gan gymheiriaid. Mae angen i ni hyrwyddo manteision strategaethau o'r fath a darparu cyngor ymarferol i ysgolion ar sut i'w defnyddio yn yr ysgol.

Nid yw rhai dysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan yn y celfyddydau a diwylliant, felly maent yn colli'r cyfle i ehangu eu gorwelion a meddwl a gweithredu mewn ffordd greadigol. Mae'r Farwnes Andrews yn amlinellu amryw o argymhellion ynglŷn â'r angen i greu partneriaethau agosach rhwng ysgolion a'r 'seilwaith diwylliannol', gan ddefnyddio'r celfyddydau a diwylliant i gefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd a darparu gweithgareddau allgyrsiol mewn rhai achosion sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol. Mae angen i ni weithio gydag awdurdodau lleol, consortia ac ysgolion i ystyried sut y gallwn ni roi argymhellion y Farwnes Andrews ar waith.

Mae llawer o'r gweithgarwch sy'n ymwneud â disgwyliadau a dyheadau'n tueddu i ganolbwyntio ar blant hŷn, o oedran ysgol uwchradd, gyda llawer llai o weithgareddau'n targedu plant iau. Yn aml, mae diffyg ffocws ar yr angen i gyfoethogi profiadau plant a darparu ystod o brofiadau a rôl-fodelau iddynt. Mae angen i ni sicrhau bod ysgolion cynradd yn cynnig cyfleoedd i blant ddechrau meddwl am yrfaoedd ac uchelgeisiau addysg i'r dyfodol, ac yn cyflwyno gwahanol rôl-fodelau iddynt. Mae angen i bob ysgol feddwl yn ofalus am sut i sicrhau bod dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn enwedig yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a manteisio ar gyfleoedd a fydd yn eu cyfoethogi.

Mae ysgolion haf yn cael yr effaith fwyaf pan maent yn rhan o raglen o gymorth. Efallai na fydd dysgwyr, athrawon a rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn ysgolion haf presennol na'r ystod o fwrsarïau ac ysgoloriaethau sydd ar gael. Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth bresennol ac ystyried a oes yna fylchau neu grwpiau targed a all elwa ar ddarpariaeth ychwanegol.

Mae yna dystiolaeth bod myfyrwyr yng Nghymru sydd wedi ennill y graddau Safon Uwch priodol i fynd i'r brifysgol yn mynd ymlaen i astudio ar lefel uwch, beth bynnag fo'u cefndir neu eu dosbarth cymdeithasol. Er hynny, mae'r rhai â'r graddau uchaf yn llai tebygol o wneud cais i fynd i brifysgolion tariff uwch neu fod yn llwyddiannus gyda'u ceisiadau na myfyrwyr o rannau eraill o'r DU. Mae angen i ni weithredu argymhellion y **Llysgennad Oxbridge yng Nghymru**, yn enwedig y rhai sy'n berthnasol i'r rhai o gefndiroedd difreintiedig, gan gynnwys ceisio deall y rhesymau pam nad yw dysgwyr o Gymru'n gwneud ceisiadau llwyddiannus i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt.

Gallai rôl **anogwyr dysgu** gael ei datblygu ymhellach i ganolbwyntio ar gefnogi darpariaeth y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*, gan gynnwys y Warant Ieuenctid. Gellid hefyd datblygu eu rôl i helpu dysgwyr eFSM i wireddu eu dyheadau, a gellid cysylltu hyn yn fwy agos â rhaglen o gymorth mewn perthynas ag ysgolion haf a mynediad i Oxbridge.

Efallai y bydd ysgolion yn ei chael hi'n anoddach nodi dysgwyr **mwy galluog a thalentog (MAT)** o gefndiroedd difreintiedig gan na fydd eu gallu'n amlwg o ganlyniad i'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae angen i ysgolion gael cymorth i nodi a meithrin dawn a gallu a darparu gweithgareddau a chyfleoedd estyn llawn her i ddysgwyr MAT.

Mae angen i ysgolion a chonsortia nodi a mynd i'r afael â'r bylchau mewn gwybodaeth ac addysgeg sy'n cyfyngu ar safonau addysgu a dysgu a chynnig hyfforddiant seiliedig ar bwnc a fydd yn galluogi athrawon i wahaniaethu eu darpariaeth cwricwlwm.

## 6. Galwad i weithredu

Mae'r tablau canlynol yn dangos, fesul thema, ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i weithredu. Maent hefyd yn dangos y camau y dylai awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion ystyried eu gweithredu.

Mae'r achos o blaid gweithredu yn un cryf, felly hefyd yr angen i'r system weithio mewn partneriaeth ac yn gyflym i sicrhau gwelliannau i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.

| **Ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned** | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd Llywodraeth Cymru yn: | Dylai awdurdodau lleol mewn partneriaeth â'u consortia rhanbarthol: | Dylai ysgolion: | Effaith/canlyniad dymunol |
| • amlinellu disgwyliadau clir ar gyfer ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned<br>• sefydlu safonau ar gyfer arfer gorau a'u harddangos trwy astudiaethau achos<br>• cyhoeddi adnoddau ymarferol yn seiliedig ar y dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a chymunedau llwyddiannus | • gweithio gydag ysgolion i ymgorffori ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol (CDY)<br>• monitro ysgolion yn erbyn safonau ar gyfer arfer gorau a nodi sut y gallant fodloni a rhagori ar y safonau hynny<br>• nodi arferion blaenllaw a hwyluso cymorth ysgol i ysgol er mwyn eu rhannu a'u hymestyn | • amlinellu gweledigaeth ysgol gyfan glir ar gyfer ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned yn seiliedig ar yr egwyddor o bartneriaeth<br>• sicrhau bod ganddynt ddyheadau a thargedau clir ar gyfer ymgysylltu yn eu cynllun datblygu ysgol a monitro cynnydd yn eu herbyn<br>• cynnig ystod o weithgareddau a dulliau ymgysylltu sy'n adlewyrchu'r gymuned a'r teuluoedd y maent yn eu gwasanaethu | Bydd ysgolion a chonsortia yn glir ynglŷn â'u rôl o ran ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau a sut i gyflawni'r rôl honno.<br>Bydd ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia yn cynllunio gwaith ymgysylltu, gan adlewyrchu eu hamgylchiadau lleol yn y camau gweithredu a'r gweithgareddau y byddant yn eu hyrwyddo.<br>Bydd ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia yn defnyddio pob math o ddulliau i wneud ymgysylltu yn rhan ganolog o fywyd ysgol. |

| Ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned (parhad) | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd Llywodraeth Cymru yn: | Dylai awdurdodau lleol mewn partneriaeth â'u consortia rhanbarthol: | Dylai ysgolion: | Effaith/canlyniad dymunol |
| • lansio ymgyrch ymgysylltu sy'n hyrwyddo 'addysg yn dechrau gartref' a'r thema o bartneriaethau cartref-ysgol-cymuned<br>• sefydlu modelau ar gyfer dulliau gweithredu ar y cyd mewn perthynas â'r ysgol, y teulu ac addysg oedolion<br>• darparu sail adnoddau o raglenni trydydd sector wedi'u gwerthuso y gall ysgolion eu defnyddio<br>• adolygu sut mae ymgysylltu effeithiol yn cael ei adlewyrchu yng ngwerthusiad a mesurau perfformiad ysgol. | • creu rhwydweithiau ar draws gwasanaethau ar y lefelau strategol a darparu ac arwain y gwaith o hyrwyddo gwaith amlasiantaethol<br>• darparu cyngor a chymorth ymarferol i ysgolion i'w helpu i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned<br>• defnyddio cyfryngau a chysylltiadau cyfathrebu lleol i gefnogi'r neges bod 'addysg yn dechrau gartref' a'r thema o bartneriaethau cartref-ysgol-cymuned. | • gweithio gydag ystod o bartneriaid i ddarparu gwasanaethau<br>• nodi dysgwyr nad ydynt yn elwa o bosibl ar gefnogaeth deuluol neu sydd â mynediad i ystod gyfyngedig o brofiadau a gweithgareddau allgyrsiol a gweithio i lenwi'r bylchau ym mhrofiadau'r dysgwyr hynny. | Bydd ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol eraill a'r trydydd sector i ddiwallu anghenion dysgwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach.<br>Bydd plant o gefndiroedd difreintiedig yn cael cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol.<br>Bydd ysgolion yn ganolog i'r gymuned.<br>Bydd addysg yn cael ei darparu mewn partneriaeth. |

| Y Blynyddoedd Cynnar | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd Llywodraeth Cymru yn: | Dylai awdurdodau lleol mewn partneriaeth â'u consortia rhanbarthol: | Dylai ysgolion: | Effaith/canlyniad dymunol |
| • amlinellu disgwyliadau clir ar gyfer gwaith amlasiantaethol<br>• hyrwyddo ymyriadau ysgol gyfan llwyddiannus gyda thystiolaeth dda<br>• sefydlu safonau ar gyfer arfer gorau a'u harddangos trwy astudiaethau achos<br>• cyhoeddi adnoddau ymarferol yn seiliedig ar y dulliau a ddefnyddir gan ysgolion llwyddiannus i ymestyn y diwrnod ysgol a darparu gweithgareddau allgyrsiol<br>• sicrhau bod rhaglenni a pholisïau'n fwy cyson a nodi bylchau a sut i'w llenwi, fel yr amlinellir yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* | • gweithio gydag ysgolion i feithrin gwaith amlasiantaethol, dulliau ysgol gyfan a phontio da i gynlluniau datblygu ysgol<br>• monitro ysgolion yn erbyn safonau ar gyfer arfer gorau a nodi sut y gallant fodloni a rhagori ar y safonau hynny<br>• nodi arferion blaenllaw a hwyluso cymorth ysgol i ysgol er mwyn eu rhannu a'u hymestyn<br>• datblygu protocolau WASPI i hwyluso rhannu gwybodaeth briodol rhwng partneriaid<br>• rhoi argymhellion yr Archwiliad a'r Gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen ar waith ar ôl iddo gael ei gyhoeddi | • amlinellu nodau clir ar gyfer gwaith amlasiantaethol yn eu CDY<br>• defnyddio dulliau dosbarth neu ysgol gyfan i ddiwallu anghenion dysgwyr a rennir a monitro effaith<br>• cydweithredu gyda lleoliadau blynyddoedd cynnar, partneriaid Dechrau'n Deg, teuluoedd a gwasanaethau iechyd i sicrhau bod plant yn derbyn cymorth wrth bontio i'r ysgol<br>• hwyluso cydgynllunio fel bod plant yn derbyn cymorth priodol yn ystod y pontio i Gyfnod Allweddol 2<br>• sefydlu systemau tracio sy'n cynnwys gwybodaeth o'r blynyddoedd cynnar ac ar draws asiantaethau | Bydd ysgolion yn adnabod eu dysgwyr cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol yn ffurfiol a bydd cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r cartref eisoes wedi'u sefydlu.<br>Bydd rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn galluogi ysgolion i gynllunio ymlaen llaw er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yn gynharach.<br>Bydd ymyrraeth gynnar, yn yr ystafell ddosbarth neu'r ysgol gyfan, yn helpu dysgwyr i oresgyn heriau a lleihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau.<br>Caiff cyfleoedd dysgu eu hymestyn a'u cyfoethogi.<br>Bydd Hwb+ yn dod yn adnodd dysgu ac addysgu cyson ar draws lleoliadau; gan wneud defnydd llawn o'r ddarpariaeth cysylltedd uwch a alluogir gan fuddsoddiad Grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol. |

| Y Blynyddoedd Cynnar (parhad) | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd Llywodraeth Cymru yn: | Dylai awdurdodau lleol mewn partneriaeth â'u consortia rhanbarthol: | Dylai ysgolion: | Effaith/canlyniad dymunol |
| • amlinellu'r ffordd orau o gefnogi plant nad ydynt yn gymwys i gael cymorth trwy Dechrau'n Deg neu Grant Amddifadedd Disgyblion<br>• cyhoeddi canllawiau ymarferol, sy'n tynnu ar arfer gorau, ar bontio effeithiol ym mhob cam o daith y dysgwr<br>• darparu llwyfannau dysgu unigol a ariennir yn ganolog i bob ysgol gynradd yng Nghymru er mwyn hwyluso cyfleoedd dysgu digidol<br>• nodi ac ymestyn rhaglenni ac ymyriadau llwyddiannus o ardaloedd Dechrau'n Deg i ardaloedd nad ydynt yn gymwys i fanteisio ar Dechrau'n Deg a/neu i'r Cyfnod Sylfaen. | • sicrhau bod ysgolion yn derbyn cymorth i ddefnyddio'r llwyfan dysgu yn effeithiol; trefnu cyfleoedd cydweithredol lle bo hynny'n bosibl<br>• annog ysgolion i arloesi yn eu dulliau o ddarparu gwasanaethau estynedig a darparu adnoddau ar eu cyfer. | • manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan ddarpariaeth Hwb+; sicrhau bod pob athro a dysgwr yn cael cyfle i ddefnyddio'r cyfrwng wrth dysgu ac addysgu<br>• defnyddio data i nodi dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar, ymyrryd yn gynnar a monitro effaith<br>• meddwl a chynllunio'n greadigol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol a'r cwricwlwm craidd i gynnig cyfleoedd dysgu mwy cyfoethog. | Bydd anghydraddoldebau o ganlyniad i amddifadedd yn cael eu lliniaru'n gynnar a bydd canlyniadau dysgwyr yn cyfateb i ganlyniadau eu cymheiriaid. |

| Dysgu ac addysgu o safon uchel | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd Llywodraeth Cymru yn: | Dylai awdurdodau lleol mewn partneriaeth â'u consortia rhanbarthol: | Dylai ysgolion: | Effaith/canlyniad dymunol |
| • egluro disgwyliadau ar gyfer CDY mewn rheoliadau<br>• amlinellu nodweddion allweddol datblygiad proffesiynol effeithiol ar gyfer gweithlu'r ysgol gyfan<br>• cyhoeddi canllawiau ymarferol, gan dynnu ar arferion gorau a ddefnyddir gan ysgolion llwyddiannus, ar ddeall a lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau dysgwyr<br>• ehangu'r amrywiaeth o ddeunyddiau ymarferol i helpu athrawon i ddatblygu sgiliau gwybyddiaeth, metawybyddiaeth ac asesu ar gyfer dysgu dysgwyr | • gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod CDY yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu gweithlu'r ysgol er mwyn deall a mynd i'r afael ag effaith amddifadedd yn well<br>• monitro ysgolion yn erbyn safonau ar gyfer cynllunio a datblygu'r ysgol gyfan<br>• hyrwyddo datblygu sgiliau gwybyddiaeth, metawybyddiaeth ac asesu ar gyfer dysgu a'u rhoi ar waith yn yr ysgol gyfan<br>• gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod gan gynlluniau datblygu ysgol dargedau clir llawn her ar gyfer gwella canlyniadau i ddysgwyr difreintiedig, gyda chymorth cynlluniau datblygu proffesiynol ystyrlon | • rhoi blaenoriaeth i ddatblygiad proffesiynol y gweithlu cyfan, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag effaith amddifadedd<br>• gosod targedau clir, llawn her ar gyfer gwella canlyniadau i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn eu cynlluniau datblygu ysgol<br>• neilltuo o leiaf un o'u diwrnodau HMS statudol i ganolbwyntio ar effaith amddifadedd<br>• gweithredu dulliau ysgol gyfan o fynd i'r afael â gwybyddiaeth, metawybyddiaeth ac asesu ar gyfer dysgu | Bydd gweithlu'r ysgol gyfan yn gallu cydnabod a lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau dysgwyr.<br>Bydd dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn elwa ar ddysgu ac addysgu o'r safon uchaf.<br>Bydd pob ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ddulliau gwybyddiaeth, metawybyddiaeth ac asesu ar gyfer dysgu. Bydd dysgwyr yn dod i feddwl yn annibynnol a datrys problemau'n well.<br>Bydd Hwb+ yn dod yn adnodd dysgu ac addysgu cyson ar draws lleoliadau; gan wneud defnydd llawn o'r ddarpariaeth cysylltedd uwch a alluogir gan fuddsoddiad Grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol. |

| Dysgu ac addysgu o safon uchel (parhad) | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd Llywodraeth Cymru yn: | Dylai awdurdodau lleol mewn partneriaeth â'u consortia rhanbarthol: | Dylai ysgolion: | Effaith/canlyniad dymunol |
| • sefydlu safonau ar gyfer arferion gorau, a arddangosir drwy astudiaethau achos, mewn perthynas â'r defnydd effeithiol o gynorthwywyr addysgu a staff cymorth<br>• darparu llwyfannau dysgu unigol a ariennir yn ganolog i bob ysgol gynradd yng Nghymru er mwyn hwyluso cyfleoedd dysgu digidol | • nodi arferion blaenllaw a sefydlu CDPau o safon uchel sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad<br>• hyrwyddo Teach First Cymru, yn enwedig mewn ysgolion â lefelau uchel o amddifadedd<br>• sicrhau bod ysgolion yn derbyn cymorth i ddefnyddio'r llwyfan dysgu yn effeithiol; trefnu cyfleoedd cydweithredol lle bo hynny'n bosibl. | • ceisio cael eu hathrawon mwyaf medrus a dawnus i weithio gyda'r dysgwyr mwyaf difreintiedig<br>• defnyddio staff cymorth a chynorthwywyr addysgu yn effeithiol a'u cynnwys yn y gwaith cynllunio<br>• defnyddio data i nodi dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar, ymyrryd yn gynnar a monitro effaith<br>• manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir trwy ddarparu Hwb+; sicrhau bod athrawon a dysgwyr yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r cyfrwng wrth ddysgu ac addysgu. | |

| Disgwyliadau a dyheadau uchel | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd Llywodraeth Cymru yn: | Dylai awdurdodau lleol mewn partneriaeth â'u consortia rhanbarthol: | Dylai ysgolion: | Effaith/canlyniad dymunol |
| • herio consortia i gyflymu gwelliannau mewn canlyniadau i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig<br>• hyrwyddo'r defnydd o Becyn Cymorth Sutton Trust-EEF<br>• cyhoeddi canllawiau 'Sut i' er mwyn helpu i gyflwyno ymyriadau cost isel sy'n cael effaith sylweddol a manteisio'n llawn ar wariant Grant Amddifadedd Disgyblion<br>• datblygu canllawiau ymarferol ar ddatblygu rôl y celfyddydau a diwylliant mewn addysg<br>• pennu disgwyliadau clir ar gyfer darparu gweithgareddau allgyrsiol a chyfoethogi a'u rôl o ran codi cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig | • herio ysgolion ar eu disgwyliadau ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig<br>• hyrwyddo'r defnydd o Becyn Cymorth Sutton Trust-EEF a helpu ysgolion i roi ymyriadau cost isel sy'n cael effaith sylweddol ar waith<br>• gweithio gyda busnesau lleol i ddatblygu rhwydweithiau o rôl-fodelau ac amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr o bob oedran ymgysylltu a dysgu am wahanol ddewisiadau gyrfa<br>• hyrwyddo gwaith partneriaeth rhwng ysgolion, busnesau a sefydliadau'r celfyddydau a diwylliannol<br>• sicrhau bod ysgolion yn gallu cynnig profiadau dysgu heriol a phwrpasol i'n dysgwyr mwy galluog a thalentog er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial. | • disgwyl i bob dysgwr gyflawni<br>• gosod targedau clir, llawn her ar gyfer pob dysgwr a sicrhau eu bod yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn eu cyflawni<br>• canolbwyntio ar nodau a dyheadau hirdymor, yn ogystal â cherrig milltir tymor byr a chanolig<br>• gwneud defnydd effeithiol o gyllid Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn cyflymu gwelliannau mewn canlyniadau i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig<br>• bod yn glir ynglŷn ag ymyriadau sydd â'r nod o godi cyrhaeddiad dysgwyr a'r rhai sy'n ceisio goresgyn yr heriau sy'n wynebu dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig | Bydd gennym ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr.<br>Bydd dysgwyr yn hyderus yn eu gallu i lwyddo ac yn disgwyl llawer ohonynt eu hunain.<br>Bydd cyfradd gwella dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn cyflymu'n sylweddol.<br>Byddwn yn gweld cyfradd enillion dda ar fuddsoddiad Grant Amddifadedd Disgyblion.<br>Bydd dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn gallu tynnu ar brofiad ehangach o ddewisiadau gyrfa wrth bennu eu dyheadau.<br>Bydd dysgwyr yn datblygu gorwelion ehangach trwy ymgysylltu â'r celfyddydau a diwylliant.<br>Bydd dysgwyr yn dod yn ddysgwyr mwy annibynnol ac yn dysgu gan ei gilydd. |

| Disgwyliadau a dyheadau uchel (parhad) | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd Llywodraeth Cymru yn: | Dylai awdurdodau lleol mewn partneriaeth â'u consortia rhanbarthol: | Dylai ysgolion: | Effaith/canlyniad dymunol |
| • hyrwyddo ysgolion haf a bwrsariau ac ysgoloriaethau<br>• archwilio darpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog er mwyn nodi a llenwi bylchau a nodi a rhannu arferion gorau<br>• defnyddio dulliau effeithiol a chyson o gefnogi cynnydd ac ymgysylltu â phobl ifanc fel yr amlinellir yn y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*<br>• rhoi'r Warant Ieuenctid ar waith ar draws pob awdurdod lleol. | | • gweithio gyda busnesau a sefydliadau'r celfyddydau a diwylliannol i ehangu gorwelion dysgwyr a'u helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â dyheadau'r dyfodol<br>• cynnal cysylltiadau â dysgwyr pan fyddant yn symud ymlaen i'r cyfnod nesaf yn eu dysgu, a'u defnyddio fel rôl-fodelau ar gyfer carfannau'r dyfodol<br>• addysgu dysgwyr i gynllunio, cynnal a gwerthuso eu dysgu eu hunain. | |